cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2014

cronfa
dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag adran 34(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 35(5) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

**Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 14 Gorffennaf 2014**
**Cyflwynwyd gan Weinidogion Yr Alban gerbron Senedd Yr Alban 15 Gorffennaf 2014**
**Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 3 Medi 2014**

HC 365
SG/2014/113

**© Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2014**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill, lle bônt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd trydydd parti bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn National Heritage Memorial Fund, 7 Holbein Place, London SW1W 8NR.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o https://www.gov.uk/government/publications

Argraffedig ISBN 9781474102094
Ar y we ISBN 9781474102100

Argraffwyd yn y DU ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

PO ID 2637656 07/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu** | **2** |
| Adroddiad strategol | 2 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 9 |
| Adroddiad tâl | 15 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr | 18 |
| Datganiad llywodraethu | 19 |
| **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban** | **26** |
| **Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **28** |
| **Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti** | **29** |
| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol** | **30** |
| **Datganiad Llifoedd Arian** | **31** |
| **Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net** | **31** |
| **Nodiadau i'r Cyfrifon** | **32** |
| **Cyfarwyddiadau Polisi** | **48** |
| Cyfarwyddiadau polisi yng Nghymru | 55 |
| Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban | 56 |
| **Perfformiad Corfforaethol** | **58** |
| **Cynnydd ar Brosiectau Dros £5miliwn** | **60** |
| **Monitro Cyflogaeth** | **64** |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad strategol

### Gwybodaeth gefndir

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') ei mireinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 ('Deddf 1998').

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i'r dreftadaeth. Rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer ei gweithrediad yn ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol. Mae Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer y derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a elwir yn Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i roi ganddo neu ganddi yn CDdLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDdLG am gyllid i fodloni ei rwymedigaethau am dalu grantiau'r Loteri a chostau gweinyddu.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i CDdLG ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu'n gysylltiedig â hi. Mae Adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr CGDG yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canran i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Fe'i cynyddwyd yn ol i 20% o 1 Ebrill 2012, ar ôl bod ar 18% trwy gydol 2011–12.

Paratowyd y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

### Prif weithgareddau

O dan adran 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben cael, cynnal neu ddiogelu:

a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archaeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;

b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;

c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd ar ôl hynny) yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac anelu at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddyfarnu grantiau refeniw i ehangu mynediad i'r dreftadaeth ac iddirprwyo penderfyniadau am grantiau Loteri i staff a hefyd i bwyllgorau

sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

### Nodau

Gan ddefnyddio arian a godir drwy'r Loteri Genedlaethol, mae CDL yn rhoi grantiau i gynnal a thrawsnewid ein treftadaeth trwy brosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth a phobl. Gan weithio gyda phartneriaid, siaradwn dros werth treftadaeth i fywyd modern, a dangoswn y gwerth hwnnw.

Fel sefydliad, ymgeisiwn i gyflawni cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ym mhob peth a wnawn. Hefyd, mae eglurder, blaenoriaethu, doethineb, awdurdod cyfrifol ac atebolrwydd yn egwyddorion craidd i ni. Maent yn llywio ein hymagwedd at ariannu, a'r modd y gweithiwn gyda chwsmeriaid a chydweithwyr. Ein nod yw cael ein hadnabod ym mha le bynnag y gweithiwn, a hynny drwy arfer a chyflwyniad cyson, a chynnal ar yr un pryd yr hyblygrwydd i ymateb i wahaniaethau ac anghenion trwy ein timau lleol ar draws y DU.

### Adolygiad ariannol

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa – sef ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri (cyfeirir at hyn fel CDL). Mae cyfarwyddiadau cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynnu ei bod yn cyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac felly ni pharatoir unrhyw gyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau dosbarthu'r Loteri CGDG y mae'r adolygiad hwn yn eu trafod.

Mae CGDG yn cael ceisiadau am arian Loteri gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r DU ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri ddechrau ym 1994, rydym wedi derbyn dros 63,000 o geisiadau ac wedi gwneud dros 43,000 o ddyfarniadau. Yn ystod y flwyddyn, cawsom bron 3,800 o geisiadau grant, yn gofyn am dros £1biliwn (cynnydd o 18% ar y llynedd). Roedd lefel y ceisiadau dros deirgwaith ein hincwm, ac yn anffodus, mae'n golygu bod rhaid i ni siomi llawer o'n hymgeiswyr.

Cawsom ein hysbysu gan DCMS y bydd cronfeydd gweddilliol yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Olympaidd yn cael eu dychwelyd i ddosbarthwyr y Loteri yn ystod 2014–15. Disgwyliwn y bydd y swm hwn oddeutu £28miliwn. Fe wnaethom ragweld derbyn yr arian hwn wrth bennu ein cyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2013–14, a oedd yn £28miliwn yn uwch na'r duedd hirdymor, sef £375miliwn. Felly, roeddem yn gallu delio'n rhannol â'r lefel uwch o lawer o geisiadau gyda'r ychwanegiad untro hwn at ein cyllideb.

Yn ystod 2013–14, llofnododd yr Ymddiriedolwyr gontractau am £408miliwn o ddyfarniadau grant, a oedd yn gynnydd o 10% ar 2012–13. Mae hyn yn dangos effaith cyllidebau dyfarnu grantiau sydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'n lefelau incwm godi. Roedd penderfyniadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn yn werth £691miliwn, sef cynnydd o 74% ar 2012–13. Cynnydd untro oedd hwn ac mae'n deillio o newid yn ein polisi o ddelio â phenderfyniadau rownd gyntaf o dan ein rhaglen Grantiau Treftadaeth a'r rhaglen Parciau i Bobl. O dan ein trydydd cynllun strategol, rhoesom y gorau i gydnabod penderfyniadau rownd gyntaf fel ymrwymiadau meddal ar gyfer penderfyniadau cadarnhaol Grantiau Treftadaeth a Pharciau i Bobl. Y rheswm am hyn oedd bod disgwyl, mewn cyfran sylweddol o achosion, na fyddai'r dyfarniad llawn yn cael ei roi yn yr ail rownd. Mewn realiti, nid yw hynny wedi digwydd, ac felly rydym wedi mynd yn ôl i'r sefyllfa a oedd yn bodoli cyn y trydydd cynllun strategol. Effaith hyn yw ein bod wedi cydnabod penderfyniadau rownd gyntaf yn 2013–14 fel ymrwymiadau meddal yn ogystal â chydnabod penderfyniadau ail rownd fel ymrwymiadau meddal, lle'r oedd y penderfyniad rownd gyntaf gwreiddiol wedi'i wneud mewn blwyddyn ariannol flaenorol. O ganlyniad, gellid dweud bod gennym gwerth dwy flynedd o ymrwymiadau meddal. Digwyddodd y gwrthwyneb i hynny pan sefydlom y system ar ddechrau'r trydydd cynllun strategol; cawsom gwpwl o flynyddoedd gyda lefel gymharol isel o ymrwymiadau meddal yn cael eu creu.

At ei gilydd, gostyngodd yr incwm net o £389miliwn yn 2012–13 i ryw £334miliwn eleni. Mae'n anodd gwneud cymhariaeth lem rhwng blynyddoedd o flwyddyn i flwyddyn.

Y rheswm am hyn yw ein bod y llynedd wedi teimlo effaith y trosglwyddiad cyllid olaf i helpu ariannu Gemau Olympaidd 2012, sef dros £20miliwn. Yn 2013–14, er nad oedd unrhyw drosglwyddiad i'r Gemau Olympaidd fe wnaeth gweithredwyr y Loteri Genedlaethol, Camelot, gyda chytundeb y Comisiwn Gamblo, ariannu cryn dipyn o weithgarwch hyrwyddo adeg cyflwyno'r tocyn Lotto £2 drwy leihau'r incwm a ddyrannwyd i ddosbarthwyr y Loteri. Bydd y cronfeydd hyn yn cael eu had-dalu mewn blwyddyn ddiweddarach. Byddai'n well gan yr Ymddiriedolwyr fod wedi cael eu hysbysu ymlaen llaw am y trosglwyddiad.

Nid ymddengys fod lefelau incwm wedi'u heffeithio gan y cynnydd ym mhris rhai tocynnau Loteri. Gostyngodd incwm buddsoddi o chwarter yn 2013–14 i £1.6miliwn. Arenillion o giltiau yn parhau'n isel yw'r rheswm am yr adenillion isel ar incwm buddsoddiad gan fod CDdLG yn buddsoddi mewn ystod gul o fuddsoddiadau arenillion isel, risg isel.

Cododd balans ein cyllid yn CDdLG o £475miliwn i £551miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd yr Ymddiriedolwyr wedi disgwyl i'r balans godi mwy, ond er bod taliadau grant fwy neu lai'n unol â'r disgwyliadau, roedd ein hincwm o'r Loteri Genedlaethol yn is na hynny a ragamcanwyd. Mae ein cyllideb grantiau a gweinyddu cyfunol ar gyfer 2014–15 ymhell uwchlaw'r incwm a ragwelwyd, a gobeithiwn y bydd hyn yn helpu atal balans CDdLG rhag codi mwy eto. Yn anffodus, mae oedi hir yn digwydd yn aml rhwng arian yn cael ei dalu i CDdLG a phryd y caiff yr arian ei dynnu i lawr gan dderbynwyr ein grantiau. Parhawn i chwilio am ffyrdd i gadw ein balans CDdLG dan reolaeth, ond ni all derbynwyr y grantiau gyflymu eu prosiectau fel eu bod yn tynnu arian i lawr yn gynharach.

Mae'r tabl isod yn dangos gwerth y penderfyniadau a'r math o benderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Yr hyn sy'n weddill o gyfnod ein hail gynllun strategol (a ddaeth i ben yn 2008) yw ymrwymiadau meddal cyfnod un, ac mae rhai o dderbynyddion y penderfyniadau hynny dal heb ddod yn ôl gyda chais cam dau. Rydym yn falch o ddweud mai ychydig iawn ohonynt sydd. Mae ymrwymiadau meddal rownd gyntaf yn cyfeirio at benderfyniadau cychwynnol ar geisiadau a wnaed o dan ein fframwaith strategol cyfredol. Dyfernir grantiau pan fydd penderfyniadau cam un a rownd un yn cael eu trosi yn ddyfarniadau llawn. Balans y dyfarniadau grant ar ddiwedd y flwyddyn, sef £9.3miliwn, yw, yn y bôn, un dyfarniad nad yw wedi'i drosi'n ymrwymiad caled trwy lofnodi contract grant.

Gan ystyried yr holl benderfyniadau cam un a rownd un, yn ogystal â'r holl ddyfarniadau grant ac ymrwymiadau caled, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd CDL wedi ymrwymo dros £708miliwn yn fwy na'r hyn yr oedd ganddi yn CDdLG. Roedd balans rhwymedigaethau cytundebol yn fwy o lawer nag asedau net CDL yn ystod y flwyddyn, ac roedd diffyg net ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dros £330miliwn ar 31 Mawrth 2014. Yn ogystal, roedd £203miliwn arall o basiau rownd gyntaf heb ymrwymiad (ar

## Tabl ymrwymiadau

| | Ymrwymiadau meddal cam un a rownd un £m | Dyfarniadau grant £m | Ymrwymiadau caled £m | Cyfanswm penderfyniadau £m |
|---|---|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 97.3 | 3.4 | 740.2 | |
| Penderfyniadau Ymddiriedolwyr yn y flwyddyn | 364.2 | 326.4 | – | 690.6 |
| Troswyd yn y flwyddyn | (86) | 86 | – | |
| Troswyd yn y flwyddyn | – | (407.9) | 407.9 | |
| Dad-ymrwymiadau | (11.1) | 1.4 | (15.2) | |
| Taliadau grant | – | – | (287.5) | |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **364.4** | **9.3** | **845.4** | |

raglenni lle na chydnabyddir ymrwymiad meddal yn y cam rownd gyntaf) sy'n debygol o ddod yn ddyfarniadau llawn yn yr ychydig fisoedd nesaf. Mae ychwanegu'r rhain at ein hymrwymiadau presennol yn golygu ein bod wedi gor-ymrwymo o bron i 2.7 mlynedd o incwm disgwyliedig. Mae hyn yn dangos penderfyniad yr Ymddiriedolwyr i geisio cadw'r balans yn CDdLG rhag cynyddu'n rhy gyflym.

Paratowyd y cyfrifon ar sail weithredol fel y mynnir gan Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol ac oherwydd nad oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm i gredu bod gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid y ganran o arian achosion da a dderbynnir gan CGDG nac i newid dosbarthwyr y Loteri. Mae'r cyfrifon yn dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bu cynnydd o 6% mewn costau staff. Mae'r ffaith fod y llywodraeth yn parhau i gadw rheolaeth ar gyflogau'r sector cyhoeddus – gall y bil cyflogau cyffredinol ond gynyddu 1% – yn golygu bod y cynnydd mewn costau yn ganlyniad cynnydd yn nifer y staff contract parhaol a chontract cyfnod penodedig. Roedd cynnydd o 29 yn y nifer o staff yn ystod 2012–13 ac effaith blwyddyn lawn y cynnydd sylweddol hwn sydd i'w feio'n bennaf am y costau uwch yn 2013–14. Mae'n debygol y bydd cynnydd bach arall mewn niferoedd yn 2014–15.


Bu gostyngiad sylweddol mewn costau dibrisiad. Y prif reswm am hyn yw diwedd y trydydd cynllun strategol a'r costau meddalwedd cysylltiedig. Roedd ein fframwaith strategol cyfredol yn mynnu gwneud llai o newidiadau i'n system gyfrifiadur ac felly cafwyd llai o ddibrisiad.

Cynyddodd costau gweithredu eraill 4%. Y prif reswm am y cynnydd mewn costau oedd ein ffioedd proffesiynol lle byddwn yn prynu arbenigedd i mewn i gynorthwyo â'n gwaith o asesu a monitro grantiau. Cododd ein gwariant ymchwil yn sylweddol wrth i ni roi prosiectau ar waith i ymchwilio i ddylanwad effaith gronnol ein cyllid, dros yr 20 mlynedd diwethaf, mewn ystod o leoedd ar hyd a lled y DU. Hefyd, mae ein costau mentora wedi ehangu'n sylweddol – gwariwyd dros £613,000 gennym yn 2013–14 – i gynorthwyo grantïon i wneud ceisiadau ail rownd gwell. Roedd gostyngiad hefyd yn y cyfraniad o'r Gronfa Loteri Fawr (gweler isod).

Mae ein costau gweithredu yn elwa hefyd o ddau gyfraniad gan gyrff y llywodraeth ganolog:

1 gan y Gronfa Loteri Fawr (BLF) tuag at y gost o gynnal y rhaglen Parciau i Bobl, y maent yn cyfrannu rhywfaint o gyllid grant ati. Gostyngodd eu cyfraniad o £375,000 i £298,000.

Costau gweithredu gwirioneddol yn erbyn costau chwyddedig 2003–04




| | 2005–06 | 2006–07 | 2007–08 | 2008–09 | 2009–10 | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | **2013–14** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweithredu *gwirioneddol* | **23.0** | **20.3** | **20.5** | **20.0** | **19.4** | **17.6** | **17.4** | **18.7** | **19.2** |
| Costau gweithredu *ichwyddedig costau 2003–04* | 23.5 | 24.1 | 24.7 | 25.4 | 26.1 | 26.8 | 27.4 | 27.9 | 28.5 |

(Noder na chynhyrchwyd costau gweithredu o 2006–07 na chyn hynny o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol)

2 gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) tuag at gost meddiannu'r rhan fwyaf o'r llawr cyntaf yn ein swyddfa yn Llundain. Darparwyd swyddfeydd ar gyfer CCC ers mis Mai 2011, ac mae eu cyfraniad yn nhermau rhent a thaliadau am wasanaethau. Yn 2013–14 codwyd £204,000 arnynt (2012–13: £206,000).

Er bod DCMS yn cyfrannu tuag at ein dyfarniadau grant Catalydd a wnaed yn 2012–13, nid yw'n gwneud unrhyw gyfraniad at gost gweithredu'r rhaglen honno.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylid cyflawni effeithlonrwydd fel dosbarthydd effeithlon cyllid y Loteri ar draul gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Maent yn falch o adrodd, er gwaetha'r cynnydd mawr yn nifer y ceisiadau a dyfarniadau, ein bod yn parhau i gyflawni ein targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a rhai sy'n derbyn grantiau. Mae mwy o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael mewn mannau eraill yn yr adroddiad blynyddol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau sy'n wynebu CDL mewn cyfarfodydd misol o'r Bwrdd a thrwy eu Pwyllgor Archwilio. Llunnir cofrestr flynyddol o'r risgiau lefel uchaf, ac mae honno'n cael ei hadolygu bob chwarter. Trafodir y prif risgiau ymhellach yn y datganiad llywodraethu.

## Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gan CDL enw da fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri'n effeithlon. Mae'r siart uchod yn nodi ein costau gweithredu ym mhob un o'r blynyddoedd diwethaf – y llinell dywyll. Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth costau gweithredu a gafwyd yn y flwyddyn y crëwyd ein strwythur swyddfa ranbarthol llawn (2003–04) o'u cynyddu'n unol â datchwyddwr CMC y Trysorlys – amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi'r DU. Er bod ein costau wedi cynyddu yn 2013–14, mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod costau gweithredu eleni yn £9.3miliwn (neu 33%) yn is na beth fyddai chwyddiant ers 2003–04 wedi awgrymu – ac mae hynny'n ostyngiad termau real sylweddol mewn costau gweithredu ac yn rhyddhau rhagor o arian ar gyfer grantiau. Pe bai'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r datchwyddwr CMC, byddai'r costau £11.7miliwn (neu 38%) yn is na lefel 2003–04.

Mae targedau wedi'u gosod gan weinidogion yn pennu gofyniad ar ddosbarthwyr y Loteri i gadw eu costau prosesu grantiau o dan 5% o incwm a'u gwariant gweithredu o dan 8% o gyfanswm yr incwm. Rhoddwyd hyd at 2013–14 i ni gyflawni'r targedau hyn; er hynny, cyflawnom y targedau ymhell cyn hynny. Gwariant gweithredu yw'r cyfan rydym yn ei wario nad yw'n daliad grant. Ystyrir costau prosesu grantiau fel dim ond y costau hynny i CGDG i brosesu ceisiadau am grantiau'r Loteri a'i orbenion gweinyddol cysylltiedig. I gyfrifo ffigur ar gyfer costau gweithredu, rydym yn defnyddio ein gwariant gweithredu ac nid ydym yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â chynorthwyo ymgeiswyr posibl – gwaith datblygu ac allgyrch, gweithdai, cyhoeddiadau, mentora a chynnal gwefan – yn ogystal â'n gweithgareddau ymchwil.

Yn 2013–14, cyflawnom y canlynol:

| | **Targed** | **Gwirio-neddol 2013–14** | Gwirio-neddol 2012–13 | Gwirio-neddol 2011–12 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant gweithredu fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **8%** | **5.7%** | 4.8% | 5.7% |
| Gwariant prosesu fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **5%** | **4.1%** | 3.8% | 4.5% |

Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi ein bod yn parhau i gyflawni'r targedau er gwaetha'r gostyngiad mewn incwm a'r cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau y bu'n rhaid i ni eu prosesu.

## Offerynnau ariannol a strategaeth buddsoddi

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' (IFRS 7) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, yn creu neu'n newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt.

Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, a gall ond fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ystyrir eu bod yn newid y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

*Risg hylifedd*
Yn 2013–14, roedd £332miliwn (99%) o incwm dosbarthu Loteri CGDG yn deillio o'r Loteri Genedlaethol. Roedd gweddill yr incwm yn deillio o adenillion buddsoddiad o'r balans sy'n cael ei ddal gyda CDdLG, £2filiwn (1%), ynghyd â llog banc bach ac incwm amrywiol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu hymrwymiadau caled (h.y. y dyfarniadau hynny lle mae contract grant ar waith) a'u symiau taladwy eraill yn sylweddol fwy na gwerth y cyllid yn CDdLG ar 31 Mawrth 2014. Fodd bynnag, ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yn CDdLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliadau grant yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi hysbysu'r Ymddiriedolwyr, mor ddiweddar â mis Mawrth 2014, nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, mae DCMS wedi cynyddu'r gyfran treftadaeth o arian achosion da y Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Mae Ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth hirdymor ar gyfer dyfarnu grantiau er mwyn sicrhau bod eu rhwymedigaethau dosbarthu'r Loteri yn unol â'i hasedau, a bod Ymddiriedolwyr yn gallu bodloni'u hymrwymiadau hyd at fis Mawrth 2023, pan ddaw pedwaredd drwydded gweithredu'r Loteri i ben. Felly, hyd yn oed pe bai gostyngiad hirdymor yn incwm y Loteri, byddai Ymddiriedolwyr yn gallu addasu cyllidebau grant blynyddol i wneud iawn am hynny.

*Risg marchnad a risg cyfradd llog*
Mae asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu Loteri'r Ymddiriedolwyr wedi'u buddsoddi yn CDdLG, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel fel bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth ar fuddsoddiad y cyllid hwn. Am y ddau reswm hyn, nid ydym wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o risgiau marchnad. Ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, gwerth marchnad ein buddsoddiadau yn CDdLG oedd £511miliwn. Fe'n hysbysir gan DCMS fod cyllid yn CDdLG wedi ennill 0.5% ar gyfartaledd yn y flwyddyn. Caiff ein balansau arian parod, a dynnir i lawr o CDdLG i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu, eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd newidiol mynediad sydyn, a oedd yn cario cyfradd llog o 0.35% yn y flwyddyn. Mae'r gostyngiad cyflym mewn cyfraddau llog marchnad yn 2008 wedi cael effaith sylweddol ar adenillion buddsoddi, ond gan nad oes llawer o le i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.3miliwn. Ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol. Cyfraddau llog o ddim oedd gan asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eraill.

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | **1,325** | 9,912 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog | **511,372** | 475,331 |
| | **512,697** | 485,243 |

*Risg credyd*
Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys rhagdaliadau (ar brydlesi eiddo a chyfraddau busnes yn bennaf) a balansau o fewn y llywodraeth. Gyda chyrff y mae DCMS yn eu noddi y mae'r balansau o fewn y llywodraeth yn bennaf, ac ad-dalwyd pob un ohonynt erbyn amser llofnodi'r cyfrifon, ac eithrio'r benthyciad nad yw i'w ad-dalu am nifer o flynyddoedd. Nid ystyria'r Ymddiriedolwyr fod eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri yn agored i risg credyd sylweddol.

*Risg arian tramor*
Nid yw gweithgareddau dosbarthu Loteri yr Ymddiriedolwyr yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

## *Asedau ariannol yn ôl categori*

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| – buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu | **511,372** | 475,331 |
| – arian a symiau cyfwerth ag arian | **1,325** | 9,912 |
| – benthyciadau a symiau derbyniadwy | **3,500** | 4,303 |
| | **516,197** | 489,546 |

## *Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori*

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| – darpariaeth | **0** | 0 |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • ymrwymiadau grant | **845,440** | 740,217 |
| • symiau taladwy gweithredol | **764** | 604 |
| • symiau taladwy eraill | **393** | 364 |
| • croniadau | **1,382** | 1,670 |
| | **847,979** | 742,855 |

## *Gwerthoedd Teg*

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CDL ar 31 Mawrth 2014.

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2014

| | **Gwerth llyfr £'000** | **Gwerth teg £'000** |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | **1,325** | **1,325** |
| Buddsoddiadau [2] | **511,372** | **511,372** |
| Symiau Derbyniadwy [3] | **3,500** | **3,500** |
| | **516,197** | **516,197** |

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2013

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod | 9,912 | 9,912 |
| Buddsoddiadau | 475,331 | 475,331 |
| Symiau Derbyniadwy | 4,303 | 4,303 |
| | 489,546 | 489,546 |

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2014

| | **Gwerth llyfr £'000** | **Gwerth teg £'000** |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant [4] | **845,440** | **845,440** |
| Symiau taladwy gweithredol [5] | **764** | **764** |
| Symiau taladwy eraill [5] | **393** | **393** |
| Croniadau [5] | **1,382** | **1,382** |
| | **847,979** | **847,979** |

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2013

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant | 740,217 | 740,217 |
| Symiau taladwy gweithredol | 604 | 604 |
| Symiau taladwy eraill | 364 | 364 |
| Croniadau | 1,670 | 1,670 |
| | 742,855 | 742,855 |

Sail prisiad teg

1. Y ffigur yma yw gwerth adneuon gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.
2. Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n darparu manylion i'r Ymddiriedolwyr am gost llyfr a gwerth teg ein balansau ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.
3. Ni thybir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai hirdymor.
4. Er y datgelwn £507miliwn o ymrwymiadau grant fel rhai nad ydynt i'w talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae rhwymedigaeth gontractiol gan Ymddiriedolwyr i dalu'r symiau hyn ar alwad, yn amodol ar gontract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os yw'r prosiectau treftadaeth sylfaenol yn bwrw ymlaen yn gyflymach na'r disgwyl.
5. Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn termau contractiol arferol, 14–30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng cost llyfr a gwerth teg

## *Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu*

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | **847,979** | 742,855 |
| Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd | **0** | 0 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **847,979** | 742,855 |

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn a symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn ac ymhellach nag un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau wedi'u tynnu i lawr gan grantïon i ariannu'u prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon hawlio eu grant cyfan yn y 12 mis nesaf pe bai eu prosiectau'n cael eu cwblhau yn y cyfnod hwnnw. Felly, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos aeddfedrwydd rhwymedigaethau i gyd o fewn blwyddyn.

Am ddisgrifiad o'n gwaith ym maes materion amgylcheddol, gweler y polisïau amgylcheddol a'r adroddiadau ar gynaliadwyedd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr isod.

## Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

*Cadeirydd*
Y Fonesig Jenny Abramsky [2]

*Ymddiriedolwyr*
Sandie Dawe [1] *o 18 Chwefror 2014*
Angela Dean [1]
Syr Roger De Haan *o 20 Ionawr 2014*
Kim Evans [2]
Yinnon Ezra [1] *hyd at 3 Chwefror 2014*
Kathy Gee *hyd at 9 Medi 2013*
David Heathcoat-Amory [1] *o 20 Ionawr 2014*
Doug Hulyer [1] *hyd at 9 Medi 2013*
Hilary Lade [2]
Alison McLean [1] *hyd at 17 Chwefror 2014*
Steve Miller *o 18 Chwefror 2014*
Richard Morris
Atul Patel [2]
Y Fonesig Seona Reid
Ronnie Spence [1] *hyd at 31 Rhagfyr 2013*
Virginia Tandy
Tom Tew *hyd at 20 Ionawr 2014*
Manon Williams
Christopher Woodward *hyd at 31 Hydref 2013*

*Prif Weithredwr*
Carole Souter [2]

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys tâl)

Gellir gweld manylion uwch reolwyr eraill yn yr Adroddiad Tâl.

Roedd y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith y staff a'r Ymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2014 fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | 6 | 8 | **14** |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | **4** |
| Staff | 67 | 203 | **270** |

**Y Fonesig Jenny Abramsky**
Cadeirydd

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

3 Gorffennaf 2014

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

### Ymgynghori â chyflogeion

Mae natur gweithrediadau'r Gronfa yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso a monitro prosiectau, ac yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae llawer o aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o feddwl am ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch reolwyr yn sicrhau – drwy grynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn y briff craidd misol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol – y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â materion sy'n peri gofid i staff. Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff yn bodoli. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, ac yn trafod materion o ddiddordeb i staff, gyda chynrychiolwyr o'r rheolwyr. Mae'n cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

### Cyfle cyfartal

Fel cyflogwr, mae CGDG yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'r Gronfa yn gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r swydd yn unig. Nid yw CGDG yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau swydd gan bobl ag anableddau, ac ar hyn o bryd mae oddeutu 5% (2012–13: 5.3%) o'n gweithlu yn bobl ag anableddau datganedig. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Grŵp Gweithredu Anabledd y Staff wedi cyfarfod ddwywaith ac wedi parhau â'r cysyniad o wahodd elusennau dethol i fynychu a chyflwyno i'r staff. Fe wnaeth niferoedd da fynychu'r cyfarfodydd hyn, ac mae'r

fformat yn sicrhau bod cydweithwyr yn y swyddfeydd rhanbarthol a gwledig yn gallu fideo-gynadledda yn ystod y sesiwn, a chynyddu nifer y cyfranogwyr felly. Yn 2013–14 gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r darparwr cymorth i gyflogeion Right Management, ac ynghyd â hyfforddiant arall yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb, mae hyn wedi galluogi staff i gael yr hyder i ddatgan anabledd.

### Symiau sy'n daladwy

Mae CGDG yn cydymffurfio â'r safon lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Chod Ymarfer Talu Gwell CBI, sef talu pob bil dilys ymhen 30 diwrnod. Yn 2013–14, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd saith niwrnod gwaith (2012–13: 10 diwrnod). Talwyd dros 94% o anfonebau ymhen 30 diwrnod calendr (2012–13: 90%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwyr – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth pryniannau yn ystod y flwyddyn wedi'i fynegi yn nhermau diwrnodau. Ar 31 Mawrth 2014 y ffigur oedd 31 diwrnod (2012–13: 27 diwrnod).

### Polisïau amgylcheddol ac adrodd ar gynaliadwyedd

Pennodd y Trysorlys ofyniad ar holl gyrff y sector cyhoeddus i gynhyrchu adroddiadau cynaliadwyedd o 2011–12. Roedd 2010–11 yn "rhediad ffug" ac o 1 Ebrill 2010, mae CGDG wedi cofnodi ei ôl troed carbon o ran teithio busnes, gwastraff a gynhyrchwyd a'r defnydd o ynni. Gan mai 2010–11 oedd blwyddyn gyntaf casglu'r wybodaeth, nid oedd yn llinell sylfaen ddibynadwy; er enghraifft, ni wnaeth yr un o'n landlordiaid ddarparu ffigurau ar gyfer oriau cilowat o nwy na thrydan a ddefnyddiwyd, ac ni oeddent ychwaith yn gallu bilio'n ddigon cyflym ar ôl diwedd y flwyddyn i ddarparu ffigurau mewn pryd ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Golyga hyn ein bod yn aml wedi gorfod defnyddio amcangyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o swyddfeydd. O 2011–12 ymlaen, fe wnaeth y sefyllfa wella rhyw ychydig, ond rydym yn gorfod amcangyfrif llawer o'n defnydd o hyd. O 2013–14, rydym wedi dechrau cyfrifo ein defnydd carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer dŵr ac ar gyfer gwastraff.

Gan mai un sefydliad ydym, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld fawr o bwynt dyrannu adroddiadau cynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

#### *Crynodeb o berfformiad*

Mae ein hallyriadau wedi cynyddu yn 2013–14, a hynny am y rhesymau canlynol:

- mae niferoedd staff wedi codi felly mae'n anochel y bydd ein defnydd wedi cynyddu;
- fel y nodwyd uchod, rydym wedi dechrau cyfrifo'r defnydd carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer dŵr ac ar gyfer gwastraff. Heb y newid hwn, byddai ein ffigurau wedi gostwng gan fod ein defnydd o nwy a thrydan wedi gostwng ychydig. Mae hyn o ganlyniad i'r gaeaf cymharol fwyn yn 2013–14.
- mae DEFRA wedi newid ei ffactorau trosi ar gyfer holl gategorïau ein defnydd. Yn anochel, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Dim ond dros un o'r adeiladau y mae'n gweithio ynddo y mae gan CGDG reolaeth drosto, sef y pencadlys yn Llundain. Yn 2010–11 fe wnaethom osod boeleri newydd ar gyfer gwresogi yn lle'r boeleri nwy 25 mlwydd oed, yr oeryddion ar gyfer y system awyru, a gosod goleuadau yn cael eu rheoli gan synwyryddion sy'n sensitif i symudiadau a golau dydd. Ar ôl gwneud gwaith ailosod mor fawr, nid oes lle i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach yn yr un swyddfa a reolwn.

Yn y deg adeilad arall yr ydym yn ddeiliaid ynddynt, rydym yn gwbl ddibynnol ar y landlord i wella perfformiad, ac mae hynny'n annhebygol o ddigwydd rhwng gwaith ailwampio mawr. Mae'r cyfle i wella ymhellach o ran allyriadau cwmpas 1 a 2 yn eithriadol o gyfyngedig felly. Dros y blynyddoedd, rydym wedi adleoli rhai o'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol mewn adeiladau llai, a bydd hynny wedi lleihau ein defnydd o ynni. Er mis Mai 2011, rydym hefyd wedi rhentu allan y rhan fwyaf o un o loriau adeilad ein

| Maes | | 2013–14 | 2012–13 | 2011–12 | 2010–11 |
|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol ($tCO_2e$) | | **1,076** | 550 | 747 | 594 |
| Ynni'r ystad | – defnyddio (miliwn kWh) | **0.9** | 1.1 | 1.3 | 1.3 |
| | – gwariant (£) | **445,624** | 489,638 | 384,532 | 358,000 |
| Gwastraff yr ystad | | | | | |
| | – defnyddio (tunelli metrig) | **28** | 24 | 19 | 20 |
| | – gwariant (£) | **12,400** | 5,518 | 6,640 | 8,000 |
| Dŵr yr ystad | – defnyddio ($m^3$) | **5,655** | 3,757 | 5,223 | 14,716 |
| | – gwariant (£) | **14,182** | 11,253 | 18,786 | 19,000 |

Normaleiddiwyd gan staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd yn ystod y cyfnod.

| Maes fesul FTE | | 2013–14 | 2012–13 | 2011–12 | 2010–11 |
|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol ($tCO_2e$) | | **4.1** | 2.2 | 3.3 | 2.5 |
| Ynni'r ystad | – defnyddio (kWh) | **3,595** | 4,249 | 5,701 | 5,686 |
| | – gwariant (£) | **1,716** | 1,986 | 1,679 | 1,530 |
| Gwastraff yr ystad | | | | | |
| | – defnyddio (tunelli metrig) | **0.1** | 0.1 | 0.1 | 0.2 |
| | – gwariant (£) | **48** | 22 | 29 | 34 |
| Dŵr yr ystad | – defnyddio ($m^3$) | **22** | 15 | 23 | 63 |
| | – gwariant (£) | **55** | 46 | 82 | 81 |

Mae ffigurau 2012–13 wedi'i diwygio yn yr ail dabl yn dilyn ail-gyfrifo niferoedd staff 2012–13 (gweler nodyn 3).

prif swyddfa, ac wedi lleihau ein defnydd o ganlyniad i hynny.

*Allyriadau nwyon tŷ gwydr*
Mae allyriadau ynni uniongyrchol yn ymwneud â nwy a ddefnyddiwyd mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir drwy ein defnydd o systemau awyru yn ein pencadlys yn Llundain. Caiff gwybodaeth am ddefnydd o nwy mewn oriau cilowat ei deillio o'n cyflenwyr.

Caiff oriau cilowat eu trosi yn dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Cyfrifwyd y carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer allyriadau o'n hoeryddion awyru yn yr un modd; gan ddefnyddio'r fformwla a nodir yn arweiniad DEFRA yn *www.ukconversionfactorscarbonsmart.co.uk.*

Mae allyriadau ynni anuniongyrchol yn ymwneud â thrydan a gynhyrchwyd gan sefydliadau eraill ac a werthwyd i ni, a gwres a brynwn gan landlordiaid i'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol. Ceir gwybodaeth am ddefnydd mewn oriau cilowat gan ein landlordiaid. Caiff oriau cilowat eu trosi yn dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactorau trosi a ddarparwyd gan DEFRA yn y wefan uchod. Rydym yn dibynnu ar ein landlordiaid i wella perfformiad.

Gwneir y rhan fwyaf o'n teithio ar y rheilffordd, ac mae ein prif gyflenwr tocynnau yn rhoi manylion i ni am allyriadau'r carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer yr holl deithiau a wnaed. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwyr llogi ceir yn rhoi data i ni am yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i'r staff ddiweddaru taenlenni adrannau â gwybodaeth am yr holl deithiau eraill. Gosodwyd y gorchwyl i benaethiaid adran sicrhau bod eu staff yn cofnodi manylion eu teithiau i gyd. Caiff y wybodaeth a gesglir ei throsi yn dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio'r un tablau o ffactorau trosi.

*Gwastraff*
Mae cynhyrchiant gwastraff wedi cynyddu yn 2013–14. Fel y trafodir isod, nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff a gynhyrchir gennym gan y bydd cynghorau yn mynd â'r gwastraff ac ni fyddai'n ddefnydd

dilys o adnoddau i gaffael offer pwyso dim ond er mwyn gwella ein dull o adrodd am y ffigur hwn. Byddwn yn parhau i geisio ateb ymarferol i gyfrifo ffigur dibynadwy.

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid oes modd dadansoddi ymhellach yr hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Caiff yr holl wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu ei gasglu gan gynghorau sy'n lleol i'r swyddfeydd y gweithredwn ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud â'r gwastraff hwnnw, ond rydym wedi ffurfio rhagdybiaethau ynglŷn â ble fydd y gwastraff yn mynd er mwyn cynhyrchu'r ffigurau uchod. Dim ond Cyngor Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân, ond rydym bellach wedi dechrau cynnwys cost gwaredu papur wedi'i rwygo.

Mae ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol yn ddigon bach i bwyso'r holl wastraff a gynhyrchwyd ganddynt. Nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff mwy o lawer a gesglir gan Gyngor Kensington a Chelsea yn Llundain gan nad yw'r cyngor yn dweud wrthym beth yw pwysau'r hyn maent yn ei gasglu. Rydym felly wedi cyfrifo maint y gwastraff a gynhyrchwyd fesul person ar sail pwysau gwirioneddol yn ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol, ac wedi cymhwyso hynny i staff yn Llundain. Byddai'n gymorth i ni pe bai cynghorau yn mynd ati'n rheolaidd i bwyso'r gwastraff maent yn ei gasglu o'n swyddfeydd.

### *Defnydd o adnoddau*

Fe wnaeth defnydd o ddŵr gynyddu yn 2013–14. Mae hyn o ganlyniad i ni'n gosod mesurydd dŵr yn Holbein Place fel bod syniad gwell o lawer gennym erbyn hyn o'n defnydd o ddŵr. Mae'n amlwg bod y symiau a godwyd arnom gan y cwmni dŵr hyd at y pwynt hwnnw yn sylweddol is na'n defnydd. Rydym bellach yn ystyried p'un ai i osod mesuryddion dŵr yn ein swyddfeydd eraill, ond byddai hyn yn mynnu cydweithrediad ein landlordiaid. Mae ein landlordiaid yn darparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig a ddefnyddir ar sail y gofod sydd gennym, yn hytrach na thrwy fesuryddion unigol.

Yn 2013–14 cynhaliom adolygiad o'r defnydd o drydan yn ein prif swyddfa yn Llundain. Roedd hyn yn gofyn am ymchwiliad i'r defnydd o bŵer ar bob llawr drwy osod mesuryddion, a gwneud gwaith cynnal a chadw manylach er mwyn gwella effeithlonrwydd ein dyfeisiau trydanol. Mae defnydd yr ystad o ynni wedi gostwng. Credwn fod ein hadolygiad wedi gwneud gwelliant bach o ran defnyddio, ond rydym yn derbyn mai'r gaeaf cymharol fwyn fydd prif achos y gostyngiad

### Datblygiadau'r dyfodol

Mae amcanestyniadau gan DCMS o'r incwm tebygol o'r Loteri Genedlaethol yn awgrymu y bydd adenillion yn parhau ar y lefel a gyflawnwyd ganddynt yn 2013–14. Roedd hyn ychydig yn llai na'n hincwm yn 2012–13, ond mae'n dal yn uwch na'r symiau a dderbyniom mewn blynyddoedd cynharach. Ar y sail hon byddwn yn cynnal ein cyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2014–15 ar y duedd hirdymor o £375miliwn, ond yn amlwg bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro incwm yn fanwl dros y 12 mis nesaf ac yn diwygio cyllidebau grantiau yn y dyfodol fel bo'n briodol.

2014–15 fydd ail flwyddyn ein fframwaith strategol 2013–18. Bellach mae gennym ddull penodol yn seiliedig ar ganlyniadau o asesu prosiectau, gan ystyried yr ystod eang o fuddion y gallent eu cyflawni, ac yn rhoi pwyslais ychwanegol ar y canlyniadau hynny yr ydym yn eu parchu fwyaf, fel dysgu. Gweithredwn ag ymagwedd gymesur a disgwyliwn i brosiectau grantiau bach (o dan £10,000) i gyflawni, fel lleiafswm, un canlyniad ar gyfer pobl, tra ddylai grantiau mawr dros £2filiwn gyflawni ystod eang o ganlyniadau ar gyer treftadaeth, pobl a chymunedau. Mae'r canlyniadau hyn fel a ganlyn:

### *Canlyniadau ar gyfer treftadaeth*

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd treftadaeth:

- yn cael ei rheoli'n well
- mewn cyflwr gwell
- yn cael ei dehongli a'i hesbonio'n well
- yn cael ei hadnabod/ei chofnodi

### *Canlyniadau ar gyfer pobl*

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd pobl:

- wedi datblygu sgiliau

- wedi dysgu am dreftadaeth
- wedi newid eu hagweddau a/neu ymddygiad
- wedi cael profiad y gwnaethant ei fwynhau
- wedi gwirfoddoli o'u hamser

*Canlyniadau ar gyfer cymunedau*
Gyda'n buddsoddiad ni:

- bydd llai o effeithiau amgylcheddol
- bydd mwy o bobl ac ystod ehangach o bobl wedi ymgysylltu â threftadaeth
- bydd yr ardal/gymuned leol yn lle gwell i fyw ac i weithio ynddi, neu i ymweld â hi
- bydd yr economi leol yn cael ei hybu
- bydd y sefydliad sy'n derbyn y grant yn fwy cydnerth

Ym mis Gorffennaf byddwn yn cynnal Cyfnewidfa Treftadaeth/Heritage Exchange, mewn partneriaeth â Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, fforwm pwysig ar gyfer dod ynghyd ag arweinwyr treftadaeth a rhai eraill sydd â diddordeb i rannu syniadau ynglŷn â threftadaeth, ei rôl a'i lle yn y gymdeithas sifil, a beth yw'r modd gorau o sicrhau ei chydnerthedd yn y dyfodol.

Nes ymlaen yn y flwyddyn byddwn yn dadlennu gwefan wedi'i gwella'n sylweddol, ac yn cyflwyno'r presenoldeb cymunedau ar-lein yr ydym wedi bod yn ei dreialu er mwyn galluogi ymgeiswyr, grantïon ac eraill â diddordeb mewn treftadaeth i rannu dysgu ac arfer da â'i gilydd.

Disgwyliwn gyflwyno polisi cyfrifyddu newydd a newid o gyfrifyddu ymrwymiadau i gyfrifyddu croniadau. Pan ddechreuodd y Loteri Genedlaethol, roedd cyfarwyddyd cyfrifyddu'r Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu ein bod yn defnyddio cyfrifyddu ymrwymiadau. Golygai hyn ein bod yn cofnodi, ar ein Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ein holl ddyfarniadau grant ar yr adeg yr oedd y contract yn cael ei gydnabod. Os caiff cyfarwyddyd cyfrifyddu diwygiedig ei gyhoeddi yn 2014–15, yn mabwysiadu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys ac yn adrodd ar sail croniadau, bydd rhaid i ni ailddatgan ein canlyniadau ar gyfer 2013–14. Ni chredwn y caiff hyn effaith sylweddol ar y ffigurau yn ein hadroddiad.

### Rhwymedigaethau pensiwn
Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Nodiadau i'r Cyfrifon.

### Trefniadau treth cyflogeion y sector cyhoeddus
Yn dilyn pryderon diweddar ynghylch osgoi talu treth yn y sector cyhoeddus, mae'r Trysorlys yn mynnu bellach bod pob corff llywodraeth ganolog yn adrodd am faterion treth uwch reolwyr a chontractwyr hirdymor. Yn benodol, mae'r Trysorlys yn mynnu bod pob uwch reolwr ar y gyflogres. Maent hefyd yn mynnu bod contractwyr yn rhoi sicrwydd ynghylch eu rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol – dylid terfynu'r contract os na ddarperir y sicrwydd hwnnw.

Mae pob un o uwch gyflogeion CGDG, yn cynnwys yr Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor rhanbarthol/gwledig, ar y gyflogres, ac felly, yn talu treth ac yswiriant gwladol ar yr arian a dderbyniant gennym ni. Nid oes yr un contractwr tymor hir y mae ei incwm yn uwch na throthwy'r Trysorlys, sef £220 y diwrnod, ac felly nid ydym wedi gofyn am sicrwydd ynghylch eu trefniadau treth.

### Cofrestr buddiannau
Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol yn CGDG. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

### Penodi archwilwyr
Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993

yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu Loteri'r Ymddiriedolwyr.

### Rhanddeiliaid allweddol

Gweithiwn gydag ystod eang o randdeiliad a phartneriaid allweddol wrth ddatblygu ein ffamwaith strategol a'n polisïau ac arfer dyfarnu grantiau. Yn eu plith y mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategol a chyrff arweiniol ar gyfer treftadaeth a meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllido ledled y DU, Aelodau etholedig a llywodraeth leol a Llywodraethau cenedlaethol. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi y DU-gyfan (gweler tudalennau 48 i 54) a rheolaethau i CDdLG sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir o'r Loteri Genedlaethol.

### Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2014 hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu, y mae angen eu dwyn i sylw'r darllenydd. Awdurdodwyd y cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 8 Gorffennaf 2014, sef y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### Ychwanegedd

Yn unol â Chyfarwyddyd Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i holl ddosbarthwyr y Loteri ystyried egwyddorion ychwaneged. Ein gofyniad ar gyfer grantiau Loteri yw y dylai ein harian fod yn ychwanegol i'r arian sydd ar gael gan y llywodraeth, ni ddylai fod yn lle arian o'r llywodraeth ganol. Felly, ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau os credwn fod arian ar gael gan y llywodraeth ar adeg y penderfyniad. Yn rhan o'u prosesau asesu grantiau, gofynnwn i ymgeiswyr gyflwyno achos clir dros fuddsoddiad arian loteri, gan gynnwys dweud wrthym pa ffynonellau arian eraill sydd wedi'u hystyried.

### Data personol

Ni chafodd CDL unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti, ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

### Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2013–14, collwyd 946 o ddiwrnodau yn sgil 364 o achosion o salwch (2012–13: 1,151 o ddiwrnodau mewn 366 o achosion o salwch), sy'n cynrychioli 0.96% o'r holl ddiwrnodau gweithio, ac yn parhau yn ganran isel iawn (2012–13: 1.28%).

## Adroddiad tâl

### Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr i gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG. Yn ogystal, fe wnaeth CGDG ad-dalu costau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn. Ildiodd Syr Roger De Haan ei hawl i dderbyn cyflog yn 2013–14.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl i'r dde. Caiff yr holl Ymddiriedolwyr eu penodi gan y Prif Weinidog. Cânt benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar sail 1%: 99%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2013–14 oedd £196,579 (2012–13: £202,111). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan y DCMS. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad yw'n arian parod i'r Ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

### Gwybodaeth archwiliedig

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Y Fonesig Jenny Abramsky<br>*Cadeirydd* | **40–45** | 40–45 |
| Sandie Dawe<br>*o 18 Chwefror 2014* | **0–5** | 0 |
| Angela Dean | **5–10** | 5–10 |
| Syr Roger De Haan<br>*o 20 Ionawr 2014* | **0** | 0 |
| Kim Evans | **5–10** | 5–10 |
| Yinnon Ezra<br>*hyd at 3 Chwefror 2014* | **10–15** | 5–10 |
| Kathy Gee<br>*hyd at 9 Medi 2013* | **0–5** | 5–10 |
| David Heathcoat-Amory<br>*o 20 Ionawr 2014* | **0–5** | 0 |
| Doug Hulyer<br>*hyd at 9 Medi 2013* | **5–10** | 5–10 |
| Hilary Lade | **10–15** | 10–15 |
| Alison McLean<br>*hyd at 17 Chwefror 2014* | **5–10** | 5–10 |
| Steve Miller<br>*o 18 Chwefror 2014* | **0–5** | 0 |
| Richard Morris | **5–10** | 5–10 |
| Atul Patel | **10–15** | 5–10 |
| Y Fonesig Seona Reid | **20–25** | 20–25 |
| Ronnie Spence<br>*hyd at 31 Rhagfyr 2013* | **15–20** | 20–25 |
| Virginia Tandy | **10–15** | 10–15 |
| Tom Tew<br>*hyd at 20 Ionawr 2014* | **0–5** | 0 |
| Manon Williams | **20–25** | 20–25 |
| Christopher Woodward<br>*hyd at 31 Hydref 2013* | **0–5** | 5–10 |

## Tâl cyflogeion (Gwybodaeth archwiliedig)

Roedd tâl y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **Cyflog 2013–14 £'000** | Cyflog 2012–13 £'000 | **Bonws 2013–14 £'000** | Bonws 2012–13 £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a a chyfan-daliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfan-daliad £'000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/14 £'000 | CETV ar 31/03/13 £'000* | Cynnydd real yn CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carole Souter *Prif Weithredwr* | **135 i 140** | 130 i 135 | **5 i 10** | 0 i 5** | 0 i –2.5 a –2.5 i –5 o gyfan-daliad | 75 i 80 a 225 i 230 o gyfan-daliad | 1,566 | 1,505 | –35 |
| Robert Bewley *Cyfarwyddwr Gweithrediadau* | **90 i 95** | 90 i 95 | **5 i 10** | 5 i 10 | 0 i 2.5 a 0 i 2.5 o gyfan-daliad | 30 i 35 a 95 i 100 o gyfan-daliad | 726 | 674 | 7 |
| Judith Cligman *Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes* | **90 i 95** | 90 i 95 | **5 i 10** | 5 i 10 | 0 i 2.5 a 0 i 2.5 o gyfan-daliad | 30 i 35 a 100 i 105 o gyfan-daliad | 659 | 612 | 6 |
| Steve Willis *Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau* Corfforaethol | **105 i 110** | 105 i 110 | **5 i 10** | 5 i 10 | 0 i 2.5 a 0 i 2.5 o gyfan-daliad | 55 i 60 a 165 i 170 o gyfan-daliad | 1,282 | 1,202 | 3 |

* Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rheiny a ddyfynnwyd yng nghyfrifon y llynedd. Cafodd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian eu newid yn 2013–14. Mae'r CETVs ar 31/03/14 a 31/03/13 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb.

** Ildiodd Carole Souter ei hawl i fonws cyfarwyddwr yn 2012–13 a bonws perfformiad yn 2013–14.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau classic, premium a classic plus, a 65 i aelodau Nuvos.

Mae bonysau sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013.

### *Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian*

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

*Cynnydd real mewn CETV*
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dyrannwyd eu costau rhwng CDL a CGDG ar sail 99%: 1% (2012–13: 99%: 1%). Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r Prif Weithredwr gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, ac mae'r Prif Weithredwr yn ei thro'n cytuno amcanion personol â'r cyfarwyddwyr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol y Gronfa a'r cyfraniad a ddisgwylir gan bob uwch reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan y Gronfa system rheoli perfformiad ac mae perfformiad yn cael ei adolygu yn unol â hyn. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth–Ebrill a'i ddosbarthu ar raddfa o bedair gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (nodir aelodaeth y pwyllgor hwn ar dudalen 9) am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill; effaith yr unigolyn ar yr Ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch reolwyr ar gontractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na chwe mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai'r Gronfa yn cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan y Trysorlys neu'r DCMS.

*Cymhareb tâl*
Un o ganlyniadau Adolygiad Tâl Teg diweddar Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf a thâl canolrif ein gweithlu.

Band tâl y cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf yn 2013–14 oedd £140,000 i £145,000. Roedd hwn bron i chwe gwaith tâl canolrif y gweithlu, sef £24,851 (2012–13: £25,593). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Yn 2013–14 creodd y Gronfa nifer o swyddi newydd ac roedd cyflog cychwynnol y rhan fwyaf o'r gweithwyr newydd yn dod i mewn yn llai na £25,593, sef y tâl canolrif yn 2012–13. Effaith hynny fu lleihau'r tâl canolrif yn y sefydliad. Roedd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn amodol ar derfyn 1% y Llywodraeth ar godiadau cyflog.

*Pecynnau Ymadael*
O dan delerau Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011, mae'n ofynnol i CGDG gyhoeddi manylion yr holl becynnau ymadael a gytunwyd yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Yn dod o dan y diffiniad o becynnau ymadael y mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, iawndal am golli swydd, taliadau ex-gratia ac ati. Roedd un tâl yn 2013–14 (2012–13: un).

Gwybodaeth archwiliedig

| | **2013–14 Nifer** | 2012–13 Nifer |
|---|---|---|
| £5,000–£10,000 | **0** | 1 |
| £15,000–£20,000 | **1** | 0 |

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

3 Gorffennaf 2014

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

O dan adran 34(1) o Ddeddf 1993, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau (ac eithrio cyfrifyddu ymrwymol ar g yfer dyfarniadau grant fel y mynnir gan gyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol) ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i hincwm a'i gwariant, adenillion a cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â gofynion Canllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FREM) ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y FREM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar y sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r DCMS wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a gyhoeddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Managing Public Money*.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Y Fonesig Jenny Abramsky**
Cadeirydd

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

3 Gorffennaf 2014

## Datganiad llywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu gofyniad i mi gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant ac arian a ddeillir o'r Loteri Genedlaethol. Heblaw am hynny, mae CGDG yn gweithredu fel endid unigol gan y credaf fod hon yn ffordd fwy effeithlon o ddosbarthu grantiau. O ganlyniad, mae un strwythur llywodraethu ac mae'r datganiad hwn yn cwmpasu dosbarthiad grantiau cymorth grant a grantiau'r Loteri.

### Y fframwaith llywodraethu

Rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd yn diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Managing Public Money.*

Rwyf yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr CGDG sy'n rhannu cyfrifoldeb am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- diffinio dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG; ac
- adrodd am stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gweithredu fel grŵp a chynhaliodd 11 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn fy mhresenoldeb i a'm cydweithwyr sy'n uwch reolwyr. Roedd cworwm ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2013–14. Cyfradd presenoldeb gyfartalog gyffredinol yr Ymddiriedolwyr oedd 99%, gyda phob un o'r Ymddiriedolwyr ac eithrio un yn cyflawni cyfradd presenoldeb o 100%. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u gorchwylion i dri is-bwyllgor – Cyllid, Staffio ac Adnoddau, Cyfathrebu ac Archwilio. Mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheoli ac yn cynnig cefnogaeth. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae cadeiryddion y pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau. Lluniwyd rhestr gynhwysfawr o'r materion a gadwyd ar gyfer y Bwrdd yn ystod 2013, a gellir ei gweld ar wefan CDL.

Mae'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau yn cynnwys pedwar Ymddiriedolwr a finnau, a chaiff ei gadeirio gan Ymddiriedolwr. Mae dau o'm cyfarwyddwyr hefyd yn mynychu pob cyfarfod. Cyfarfu'r pwyllgor hwn dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob un ohonynt. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys paratoi fframwaith strategol a chynlluniau busnes CGDG, pennu a monitro cyllidebau ar gyfer dyfarniadau grant a chostau gweithredu, arwain rheolaeth ar strwythurau gweinyddol a rheoli, goruchwylio buddsoddi cronfa waddol CGDG a chymeradwyo'r polisi tâl. Newidiodd y Pwyllgor ei enw yn ystod y flwyddyn, drwy ymgorffori "Staffio" yn ei enw. Roedd hyn i ddangos pwysigrwydd staff i'w gylch gwaith. Roedd y materion arwyddocaol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys bodloni ei hun fod y rheolwyr yn monitro beichiau gwaith staff yn ddigonol ar adeg pan fo ceisiadau'n cynyddu; trafod yr adroddiad diweddaraf Buddsoddwyr mewn Pobl lle'r oedd y Pwyllgor yn falch o weld bod CGDG yn parhau i gyflawni'r safonau angenrheidiol; adolygu'n fanwl cyflwyno'r fframwaith strategol cyfredol a chynnwys Cynllun Busnes 2014–15.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys tri Ymddiriedolwr, er y rhagwelir y bydd pedwerydd Ymddiriedolwr yn cael ei ychwanegu yn ystod 2014. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan Ymddiriedolwr. Cyfarfu dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Roedd cryn drosiant yn aelodaeth y Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn wrth i gontractau Ymddiriedolwyr ddod i ben. Sicrheais bod yr Ymddiriedolwyr newydd ar y Pwyllgor yn meddu ar wybodaeth a phrofiad perthnasol ar gyfer y rôl hon.

Byddaf innau'n mynychu pob cyfarfod ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys gweithgareddau'r archwilwyr mewnol ac allanol a goruchwylio diwylliant risg CGDG. Un o weithredoedd pwysig y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd goruchwylio ail-dendro'r contract archwilio mewnol. Y canlyniad oedd newid yr archwilwyr mewnol, a fydd yn cychwyn yn eu rôl yn 2014–15. Mae'r pwyllgor yn gwneud adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod y Pwyllgor yn rhoi iddynt y sicrwydd sydd ei angen arnynt.

Cefnogir y Bwrdd hefyd gan Bwyllgor Cyfathrebu sy'n cynghori ar y strategaeth gyfathrebu ac yn gweithredu fel bwrdd seinio ar gyfer mentrau allweddol.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau ar gyfer mathau penodol a gwerthoedd grantiau'r Loteri i bwyllgorau gwledydd a rhanbarthau. Mae 12 o'r pwyllgorau hyn ac mae pob un yn cynnwys un Ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu maes, a gweithredant fel eiriolwyr gweithgareddau Loteri'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ar gyfer grantiau o dan £100,000 i staff; penaethiaid rhanbarthau a gwledydd yn benodol. Mae aelodau'r pwyllgorau rhanbarthol a gwledig yn mynychu cyfarfodydd i gynghori ar benderfyniadau ynglŷn â grantiau dirprwyedig, ac mae'r pwyllgorau yn adolygu gweithgarwch grantiau dirprwyedig yn flynyddol. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau dirprwyedig ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan staff eu hadrodd i'r Bwrdd.

Gweithredaf strwythur pedair adran o fewn CGDG. Y penaethiaid adran a'u dirprwyon yw fy Mwrdd Rheoli. Fi sy'n cadeirio pob cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli, sy'n cyfarfod yn wythnosol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn rheoli gweithgarwch y Gronfa o ddydd i ddydd. Rwyf yn elwa'n fawr ar arbenigedd fy nghydweithwyr sy'n meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad yn eu meysydd priodol. Hefyd, cynhaliaf gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Fforwm Rheolwyr sy'n cynnwys pob un o'r rheolwyr canol ac uwch reolwyr. Mae agenda'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cynllunio a risg yn rheolaidd, ac mae'n galluogi staff o adrannau amrywiol i rannu'u barn ar arfer da.

Mae ein cryfder cyfunol yn ein galluogi i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ddigon hyblyg i ymdopi â gofynion newidiol ein rhanddeiliaid, ac yn ein galluogi i ymgyfarwyddo â datblygiadau mewn gweinyddu. Cynlluniwyd ein system rheolaeth fewnol i reoli risg at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; dim ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall wneud felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, i werthuso tebygolrwydd sylweddoli'r risgiau hynny a'r effaith pe byddent yn cael eu sylweddoli, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Caiff cynllun gweithredu blynyddol CGDG – y cynllun busnes – ei drafod â'n hadran noddi, sef y DCMS. Mae'r DCMS hefyd wedi gosod cyfarwyddiadau polisi ac ariannol yr ydym ni wedi cydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau Loteri; mae llywodraethau Cymru a'r Alban wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â'n gweithgareddau Loteri yn y gwledydd hynny. Rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Datganiad Rheoli cytunedig a Memorandwm Ariannol sy'n seiliedig ar dempled a luniwyd gan y Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ag uwch swyddogion y DCMS a chyd-ddosbarthwyr y Loteri.

### Asesu risg

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau eu llywio gan ddiwylliant rheoli risg CGDG. Lluniodd y Bwrdd Rheoli ddatganiad rheoli risg sy'n nodi ein hegwyddorion rheoli risg. Mae hefyd yn disgrifio sut y mae CGDG yn nodi, monitro ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd, ac yn nodi archwaeth risg y Gronfa. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i unigolion a grwpiau

i sicrhau bod arfer rheoli risg CGDG yn cyflawni'i amcanion risg. Cymeradwyir y datganiad gan y Pwyllgor Archwilio, ac fe'i adolygir yn flynyddol.

Mae archwaeth risg y Gronfa, fel y nodir yn y strategaeth rheoli risg, yn datgan: "Dylid annog arfer trwyadl wrth gymryd risgiau a dylid annog arloesedd er mwyn cyflawni amcanion CGDG. Mae hyn yn golygu nad diwylliant osgoi risg 100% yw'r defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau." Credaf fod y Gronfa yn dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant, ac nid yw'n mynd ati'n syml i wneud penderfyniadau sy'n rhydd o risg. I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau y rhown grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd o ran gweinyddu'r grant. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn amgylchiadau prin, rydym yn diddymu'r grant. Yn yr achosion gwaethaf, gall fod rhaid i ni alw'r heddlu i mewn. Y fi sy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro'r swm bob blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw awgrym bod ein prosesau asesu a monitro yn ddiofal. Fel y gellir gweld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae'r lefel diddymu grantiau yn eithriadol o fach o gymharu â'r swm a ddosbarthwn bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uwch o ran bodlonrwydd cwsmeriaid a ddangoswyd mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n rhy feichus i ymgeiswyr. O ganlyniad, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos i bryderu ynglŷn â'r lefel risg sydd ymhlyg yn ein prosesau.

Bob blwyddyn, caiff risgiau eu categoreiddio drwy ystyried pa mor debygol y maent o ddigwydd pe na fyddai unrhyw weithgarwch lliniaru risg yn digwydd a'r effaith pe byddai'r risg yn digwydd. Mae'r risgiau lle ystyrir bod yr effaith bosibl yn uchel yn ffurfio cofrestr risg CGDG. Mae'r gofrestr risg yn ffurfio rhan o gynllun busnes blynyddol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ôl iddo gael ei ardystio'n flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Rheoli'n rhoi'r dasg i'r uwch reolwyr (y 'perchenogion risg') o roi gweithdrefnau ar waith i fonitro risg, ac os yw'n bosibl, ei liniaru.

Mae'r Bwrdd Rheoli'n adolygu effeithiolrwydd eu gwaith bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu effeithiolrwydd ym mhob cyfarfod, ac yn cwestiynu gweithgareddau perchenogion risg. Ymhellach, mae ein harchwilwyr mewnol yn adolygu'r prosesau rheoli risg fel rhan o'u gwaith a gallant roi budd eu profiad o weithgareddau rheoli risg sefydliadau eraill.

Mae'r papurau polisi a roddir i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i benderfynu arnynt yn cynnwys trafodaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd camau gweithredu posibl. Mae'r Bwrdd hefyd yn trafod un o'r risgiau ar y gofrestr risg yn rheolaidd gyda'r perchennog risg.

Er mai'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio sy'n arwain ar osod y fframwaith risg, mae'r staff ar lefel rheolwyr canol wedi'u hymgorffori'n llawn yn y system. Caiff y gofrestr risgiau ei chylchredeg i'r holl reolwyr canol cyn iddynt gynhyrchu'u cynlluniau tîm blynyddol. Mae pob cynllun blynyddol tîm yn cyfeirio'n benodol at y gofrestr risgiau ac mae'n dweud sut bydd eu gweithgareddau'n gweithredu yng ngolau'r risgiau a nodwyd. Disgwylir iddynt hefyd ddod ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg i sylw uwch reolwyr. Caiff eu cynlluniau eu trafod a'u cymeradwyo gan uwch reolwyr. Yn ogystal, mae'r Fforwm Rheolwyr yn trafod yn rheolaidd yr amgylchedd risg y mae CGDG yn gweithredu ynddo, a sut dylai'r Gronfa ymateb. Caiff yr holl reolwyr canol eu harfarnu yn flynyddol o ran y modd y maent yn rhagweld, nodi ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd.

Yn 2013–14, ystyriodd CGDG mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- mae adnoddau cymorth grant Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn annigonol i achub rhannau nodedig o'n treftadaeth genedlaethol sydd mewn perygl;
- mae'r nifer fawr o newidiadau sydd wedi digwydd i aelodaeth y Bwrdd, neu oedi yn y broses benodi, yn tanseilio gallu'r Bwrdd i ddarparu llywodraethu effeithiol

a/neu benderfyniadau cadarn ynglŷn â cheisiadau grant;

- grantiau a ddyfarnwyd yn methu bodloni ein hamcanion strategol;
- y galw am ddyfarniadau grant, cyngor cyn gwneud cais a gwaith monitro yn mynd y tu hwnt i'n gallu gweithredol;
- ein strategaeth yn methu bodloni anghenion y dreftadaeth a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol, ac felly diffyg cefnogaeth iddi gan ein rhanddeiliaid;
- methu gosod a dilyn gweithdrefnau effeithlon gan achosi risg aneffeithlonrwydd, twyll neu wneud penderfyniadau sy'n agored i her;
- methu recriwtio, cadw a chymell staff medrus priodol;
- risg nad yw rhanddeiliaid ledled y DU yn deall ac yn gwerthfawrogi'r buddion o fuddsoddi mewn treftadaeth; a
- risg craffu cynyddol gan y cyfryngau a llunwyr barn ar ein penderfyniadau ariannu yn yr amodau economaidd a gwleidyddol presennol, gyda'r potensial am ymateb niweidiol.

Mae gan CGDG bolisi twyll a adolygir yn flynyddol. Caiff ei roi i bob aelod newydd o'r staff pan gânt sesiwn hyfforddi undydd ar ymwybyddiaeth twyll. Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â dogfennau Swyddfa'r Cabinet, y Fframwaith Polisi Diogelwch a mesurau gorfodol y Gweithdrefnau Trin Data yn y Llywodraeth. Rhoddir arweiniad i bob aelod ar risg gwybodaeth fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Mae'r polisi, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn, yn mynnu bod pob data'n cael eu cadw'n ddiogel.

## Modelau sy'n Bwysig i Fusnes

Rwyf o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r argymhellion yn Adroddiad Macpherson. Barnaf ein bod yn defnyddio un model sy'n bwysig i fusnes; y rhagolwg llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau dyfarnu grantiau blynyddol allan o'n hincwm Loteri. Ceisiwn sicrhau ein bod yn dyfarnu'r lefel grantiau uchaf posibl heb y risg o redeg allan o arian yn ddiweddarach. Crëwyd y model gan sefydliad allanol ryw 10 mlynedd yn ôl yn dilyn ymgynghori â'n staff. Mae'r model yn parhau yn ei ffurf wreiddiol ac eithrio ymestyn ei oes ymhellach na 2014–15. Er gwaetha'r newidiadau sylweddol i'r ffordd y gweithredwn ac amrywiaeth o raglenni grant newydd a grëwyd ers ffurfio'r model, gwelwn ei fod yn darparu rhagolwg rhesymol o'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) – yn 2013–14, fe wnaeth y model ragweld taliadau grant o £294miliwn; £288miliwn ydoedd mewn gwirionedd, sef amrywiad o 2%. O ganlyniad, nid ydym wedi gorfod ystyried ail-ddylunio'r model. Caiff ei ddiweddaru mewn dwy ffordd: (1) pa bryd bynnag y bydd DCMS yn cyhoeddi amcanestyniad wedi'i ddiweddaru o incwm y Loteri, efallai ddwywaith y flwyddyn; a (2) ar ôl diwedd y flwyddyn pan gaiff data'r model ei ddiweddaru gyda'r holl ffigurau gwirioneddol am y flwyddyn sydd newydd ei chwblhau. Ar y ddau achlysur, ceir adolygiad trwyadl o gywirdeb y diweddariadau cyn y bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniad ynghylch a yw'r gyllideb dyfarniadau grant, yn y tymor byr a'r tymor hir, yn parhau'n briodol.

## Materion arwyddocaol yr ymdriniwyd â hwy gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn

Y gweithgarwch mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu cyflwyno'r fframwaith strategol newydd, *Gwahaniaeth parhaus ar gyfer treftadaeth a phobl*. Roedd hwn yn cynnwys cyflwyno nifer o raglenni grant newydd, fel Menter Treftadaeth, yn ogystal â symud at ddull yn seiliedig ar ddeilliannau o asesu'r holl geisiadau. Roedd y Bwrdd hefyd wedi cyflwyno rhaglen grant dirprwyedig newydd wedi'i thargedu – Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw; er mwyn bodloni'r lefel diddordeb uchel mewn prosiectau'n ymwneud â Chanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar ôl cynnydd sylweddol yn incwm y Loteri yn 2012–13, fe wnaeth DCMS ddiwygio'u hamcanestyniadau tuag i lawr ar gyfer incwm y Loteri yn y dyfodol ym mis Chwefror 2014. Ym mis Hydref 2013 lansiodd Camelot gêm Lotto £2 newydd i gynyddu refeniw ar gyfer achosion da; nid yw effaith y newid hwn yn

glir eto. Wrth ystyried y ddau ffactor hwn, a'r lefel gor-ymrwymo yn erbyn y balans yn CDdLG, cytunodd y Bwrdd ar gyllideb o £375miliwn ar gyfer 2014–15.

Ni ddaeth unrhyw beth o bryder i'r amlwg o unrhyw un o'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Bwrdd. Roedd yr adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol (rhoddir mwy o fanylion isod).

### Perfformiad y Bwrdd

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd yn sylweddol yn ystod 2013–14, gyda chwech o Ymddiriedolwyr yn dod at ddiwedd eu cyfnodau, a phump o Ymddiriedolwyr newydd yn cychwyn ar eu penodiad o fewn y flwyddyn. O ganlyniad i'r trosiant sylweddol hwn yn aelodaeth y Bwrdd, cytunodd y Bwrdd i beidio â chynnal adolygiad o'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn. Fe wnaeth y Bwrdd adolygu cynnydd yn erbyn y gweithredoedd yn deillio o'r adolygiad o effeithiolrwydd a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2013. Roeddent yn fodlon fod yr holl weithredoedd a nodwyd yn yr adolygiad o effeithiolrwydd yn 2013 naill ai wedi'u cwblhau neu ar fin eu cwblhau. Felly, ystyriai'r Bwrdd ei fod yn parhau i fodloni Cod Llywodraethu Corfforaethol y Trysorlys. Nid oedd unrhyw beth yn unrhyw un o'r adroddiadau archwilio mewnol nac allanol a roddwyd gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd a barodd unrhyw bryder iddo. O ganlyniad, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar ansawdd data a roddir ger ei fron gan reolwyr ac y seilia ei benderfyniadau arno.

Mae cyfnod ymsefydlu ar gyfer pob Ymddiriedolwr newydd adeg eu penodi, sy'n eu cyflwyno i'w rhwymedigaethau fel Ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau, ac mae hynny'n helpu eu paratoi i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd. Parheir â'r cyfnod ymsefydlu ffurfiol hwn drwy raglen barhaus o ddigwyddiadau i gynorthwyo Ymddiriedolwyr newydd. Roedd y nifer fawr o Ymddiriedolwyr newydd a benodwyd mewn cyfnod byr yn cynyddu pwysigrwydd cyfnod sefydlu effeithiol. Caiff effeithiolrwydd Ymddiriedolwyr ei arfarnu gan y Cadeirydd yn rheolaidd.

### Y flwyddyn lywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr yn CGDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. O ganlyniad i'w gwaith yn ystod y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu tystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yn CGDG. Yn ogystal, rwyf wedi gweld llythyr y rheolwyr a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014. Rwyf wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system rheolaeth fewnol yn gwella'n barhaus.

Caiff y cynllun archwilio mewnol blynyddol ei greu ar sail risg; darparwyd copi o'r gofrestr risg ddrafft i'r archwilwyr mewnol ar gyfer 2013–14 wrth baratoi eu cynllun. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio adolygu a chymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol. Fe wneuthum sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y cynllun i ganiatáu ar gyfer gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn yr amgylchedd risg neu risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Nid oedd unrhyw risgiau, fodd bynnag.

Trafodwyd holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rheiny yr adroddwyd ar eu hadrannau gan yr archwilwyr – roedd hyn yn rhoi'r cyfle i mi ac aelodau'r Pwyllgor i drafod yn fanwl y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr. Roedd yn ofynnol i benaethiaid adran y nododd yr archwilwyr mewnol fod ganddynt ddiffygion yn eu hadran, lunio cam cywirol a gosod dyddiad cwblhau ar gyfer y cam hwnnw mewn ymgynghoriad â'r archwilwyr mewnol. Caf adroddiad

blynyddol gan yr archwilwyr sy'n rhoi gwybod i mi am y cynnydd y mae fy mhenaethiaid adran wedi'i gyflawni yn gwella'r pwyntiau a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol mewn blynyddoedd blaenorol.

Roedd ein hadroddiadau archwilio mewnol yn y flwyddyn yn edrych ar ein system gaffael a uwchraddiwyd, gyda phwyslais penodol ar eitemau gwariant mawr, ac adrodd o dan agenda tryloywder y Llywodraeth; ymweliadau â rhai o'n swyddfeydd rhanbarthol a gwledig i archwilio materion ariannol a gweinyddol fel iechyd a diogelwch, yn ogystal â phrosesu ceisiadau; a'r llwyddiant o ran dod â'r gwaith o asesu a monitro ar gyfer y cynllun Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr yn fewnol, gwaith a wnaed i ni'n flaenorol gan English Heritage (mae'r rhaglen wedi'i hail-enwi yn Grantiau ar gyfer Mannau Addoli yn 2013–14). Nododd yr archwilwyr feysydd lle gellid tynhau'r rheolaethau, ac mae'r rheolwyr wedi cytuno i wneud y newidiadau angenrheidiol. O ganlyniad, roeddwn yn fodlon â chanlyniadau'r adroddiadau archwilio mewnol hynny.

Ni wnaed unrhyw newidiadau o bwys i'n systemau yn 2013–14 ac nid oes unrhyw broblemau wedi codi sy'n fy arwain i gredu nad yw'r system rheolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol. Disgrifiodd yr archwilwyr mewnol fod gan CGDG "fframwaith rheoli mewnol cadarn ac effeithiol ar waith" yn eu hadroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio. Nid oedd unrhyw beth yn llythyr y rheolwyr a luniwyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r cyfrifon hyn a chyfrifon y flwyddyn flaenorol sy'n fy arwain i amau digonolrwydd ein systemau.

Mynnais hefyd fod holl aelodau'r tîm uwch reolwyr a'r rheolwyr canol yn llofnodi memoranda cynrychiolaeth blynyddol i mi, yn nodi'u cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn 2013–14. Mae pob un o'r rheolwyr wedi llofnodi'r memorandwm ac maent yn ymwybodol fy mod yn dibynnu ar yr haeriadau hyn o'm rheolaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n paratoi adroddiad o'i weithgarwch i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr unwaith y flwyddyn, yn ogystal â darparu copïau o gofnodion ei gyfarfodydd. Nid oedd yr archwilwyr mewnol nac allanol wedi datgelu unrhyw beth anffafriol yn ystod y flwyddyn. Daeth y pwyllgor i'r casgliad, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2014, ei fod wedi gweithredu'n foddhaol yn ystod 2013–14. Roedd y Bwrdd yn falch o glywed hyn a chadarnhaodd y farn hon yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau yn paratoi dau adroddiad y flwyddyn i'r Bwrdd yn chwanegol at gofnodion ei gyfarfodydd. Roeddent yn gallu adrodd ein bod wedi cael blwyddyn lwyddiannus a bodlonwyd y gyllideb grant; cadwom o fewn ein cyllideb weithredu a chwrdd â thargedau DCMS ar gyfer prosesu grantiau'r Loteri a chyfanswm costau gweithredol fel cyfran o incwm; cawsom flwyddyn lwyddiannus arall o ran cyrraedd ein targedau lefel gwasanaeth ac mae ein lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau yn uchel. Cyflawnwyd hyn i gyd ar adeg pan fo ceisiadau am grantiau ar eu lefelau uchaf, ac mae ein sylfaen costau, mewn termau real, yn parhau ar ei isaf ers i ni agor ein swyddfeydd gwledydd a rhanbarthol dros ddegawd yn ôl.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa yn rhoi i mi'r lefel sicrwydd y gofynnaf amdani. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n fy arwain i gredu fod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri yn annigonol. Credaf fod y strwythur llywodraethu wedi gweithredu'n llwyddiannus yn ystod 2013–14.

## Cofnodion presenoldeb

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn pennu gofyniad arnom i ddatgelu cofnodion presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd o is-bwyllgorau'r Bwrdd.

## *Cofnod presenoldeb y Bwrdd*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer diwrnodau cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Y Fonesig Jenny Abramsky | 11 | 12 | 11 |
| Sandie Dawe | 2 | 2 | 2 |
| Angela Dean | 11 | 12 | 12 |
| Syr Roger De Haan | 3 | 4 | 4 |
| Kim Evans | 11 | 12 | 12 |
| Yinnon Ezra | 9 | 10 | 10 |
| Kathy Gee | 4 | 4 | 4 |
| David Heathcoat-Amory | 3 | 4 | 4 |
| Doug Hulyer | 4 | 4 | 4 |
| Hilary Lade | 11 | 12 | 12 |
| Alison McLean | 9 | 10 | 10 |
| Steve Miller | 2 | 2 | 2 |
| Richard Morris | 11 | 12 | 12 |
| Atul Patel | 11 | 12 | 12 |
| Y Fonesig Seona Reid | 11 | 12 | 12 |
| Ronnie Spence | 8 | 8 | 8 |
| Virginia Tandy | 11 | 12 | 12 |
| Tom Tew | 3 | 4 | 4 |
| Manon Williams | 11 | 12 | 12 |
| Christopher Woodward | 6 | 6 | 6 |

## *Cofnod presenoldeb y Pwyllgor Archwilio*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|
| Yinnon Ezra | 2 | 2 |
| Doug Hulyer | 1 | 1 |
| Alison McLean | 2 | 2 |
| Ronnie Spence | 2 | 2 |
| Angela Dean | 2 | 2 |
| David Heathcoat-Amory | 1 | 1 |
| Sandie Dawe | 1 | 1 |

## *Cofnod presenoldeb y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|
| Y Fonesig Jenny Abramsky | 3 | 3 |
| Kim Evans | 3 | 3 |
| Hilary Lade | 3 | 3 |
| Atul Patel | 3 | 3 |
| Carole Souter | 3 | 3 |

## *Cofnod presenoldeb y Pwyllgor Cyfathrebu*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|
| Y Fonesig Jenny Abramsky | 2 | 2 |
| Doug Hulyer | 1 | 1 |
| Yinnon Ezra | 2 | 1 |
| Kathy Gee | 1 | 1 |
| Virginia Tandy | 1 | 1 |
| Y Fonesig Seona Reid | 2 | 1 |

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

3 Gorffennaf 2014

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol o Weithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

## Cyfrifoldebau priodol yr Ymddiriedolwyr, y Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

## Cwmpas yr Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, pa un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: ba un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Gweithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysonderau arwyddocaol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i weld yn anghywir i raddau mawr yn seiliedig ar, neu'n anghyson i raddau mawr â'r wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau arwyddocaol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Gweithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2014 ac o'i diffyg gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifon digonol wedi'u cadw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifon; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Sir Amyas CE Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

8 Gorffennaf 2014

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | **£'000** | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 10 | | **332,037** | 387,150 |
| Incwm buddsoddiad CDdLG | 10 | | **1,552** | 2,071 |
| | | | **333,589** | 389,221 |
| Llai: swm a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | 10 | | **(0)** | (20,208) |
| | | | **333,589** | 369,013 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **55** | | 57 |
| Incwm amrywiol | 2 | **120** | **175** | 66 |
| **Cyfanswm incwm** | | | **333,764** | 369,136 |
| Ymrwymiadau caled newydd | 12 | **(407,868)** | | (370,677) |
| Dad-ymrwymiadau caled | 12 | **15,124** | | 7,046 |
| | | | **(392,744)** | (363,631) |
| Costau staff | 3 | **(10,698)** | | (10,093) |
| Dibrisiad ac amorteiddiad | 7 ac 8 | **(330)** | | (796) |
| Costau gweithredu eraill | 4 | **(8,139)** | | (7,816) |
| | | | **(19,167)** | (18,705) |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **(411,911)** | (382,336) |
| **Diffyg gweithredol** | | | **(78,147)** | (13,200) |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | | |
| Elw net ar ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 17 | | **0** | 0 |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 | | | **(78,147)** | (13,200) |

Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 32 i 47 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000 | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2012 | 3,386 | (242,330) |
| | | |
| Newidiadau mewn ecwiti yn 2012–13 | | |
| Rhyddhau cronfa wrth gefn gwerth teg i'r cyfrif incwm a gwariant | (3,386) | 3,386 |
| Elw net ar ailbrisio buddsoddiadau | 0 | |
| Diffyg a gadwyd | | (13,200) |
| Balans ar 31 Mawrth 2013 | 0 | (252,144) |
| | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2013–14** | | |
| Rhyddhau cronfa wrth gefn gwerth teg i'r cyfrif incwm a gwariant | 0 | 0 |
| Elw net ar ailbrisio buddsoddiadau | 0 | |
| Diffyg a gadwyd | | (78,147) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **0** | **(330,291)** |

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad y balans yn CDdLG (gweler nodyn 10). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad asedau anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodiadau 7 ac 8 i'r cyfrifon) yn berthnasol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 32 i 47 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol
ar 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | **2013–14 £’000** | 2012–13 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 7 | **494** | 69 |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 8 | **997** | 1,096 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau – balans yn CDdLG | 10 | **511,372** | 475,331 |
| Masnach a symiau eraill sy’n dderbyniadwy | 9 | **3,500** | 4,303 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | | **1,325** | 9,912 |
| | | **516,197** | 489,546 |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **517,688** | 490,711 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 11 | **(2,539)** | (2,638) |
| Ymrwymiadau grant mewn blwyddyn | 12 | **(338,176)** | (296,087) |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net** | | **176,973** | 191,986 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Ymrwymiadau grant sy’n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | 12 | **(507,264)** | (444,130) |
| | | | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(330,291)** | (252,144) |
| | | | |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfa wrth gefn gwerth teg | 17 | **0** | 0 |
| | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen | | **(252,144)** | (242,330) |
| Trosglwyddiad o’r gronfa wrth gefn gwerth teg | | **0** | 3,386 |
| Symudiad yn y flwyddyn | | **(78,147)** | (13,200) |
| Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen | | **(330,291)** | (252,144) |
| | | **(330,291)** | (252,144) |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 32 i 47 yn llunio rhan o’r cyfrifon hyn.

**Y Fonesig Jenny Abramsky**
Cadeirydd

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

3 Gorffennaf 2014

# Datganiad Llifoedd Arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o CDdLG | 10 | **297,548** | 268,952 |
| Arian o ffynonellau eraill | 2 | **120** | 2,366 |
| Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(10,530)** | (9,966) |
| Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc | | **55** | 57 |
| Arian a dalwyd i gyflenwyr | | **(7,603)** | (9,346) |
| Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciadau | 12 | **(287,521)** | (244,715) |
| **(All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | 14a | **(7,931)** | 7,348 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 14b | **(656)** | (396) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd arian a symiau cyfwerth ag arian** | | **(8,587)** | 6,952 |

# Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|---|
| (Gostyngiad)/cynnydd arian a symiau cyfwerth ag arian yn y cyfnod | | **(8,587)** | 6,952 |
| **Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | 14c | **(8,587)** | 6,952 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 1 Ebrill 2013 | | **9,912** | 2,960 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2014** | | **1,325** | 9,912 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 32 i 47 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl byddant yn cael effaith sylweddol ar yr incwm a'r asedau net a adroddwyd ar weithgareddau CGDG neu ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a'r FREM, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a chyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Hydref 2002. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FREM yn cymhwyso IFRS fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol ac mae'n mynnu defnyddio cyfrifyddu ymrwymiadau ar gyfer dyfarniadau – mae hwn yn wyriad o gyfrifyddu croniadau. Mae copïau o ddosbarthiad y Loteri a chyfarwyddiadau'r cyfrifon cymorth grant ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Pan fo'r FREM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig CGDG at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan fod y DCMS wedi hysbysu CGDG nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri.

### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri a phan fo cyfanswm y gost uwchlaw £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles; |
| Offer swyddfa | – 4–10 mlynedd; |
| Gosodiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd; |
| Asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd. |

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu. Mae dibrisiant yn cychwyn yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

### c) Dyrannu costau ac adrodd segmentaidd

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 8 yn pennu gofyniad bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar adroddiadau segmentaidd pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n briodol, byddai uwch reolwyr yn nodi ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredol iddynt ar sail pro rata yn seiliedig ar y lefel grant a ddyfarnwyd, oni bai bod gwahaniaeth sylweddol yn y modd y cafodd y ceisiadau eu prosesu, ac os felly, byddai dulliau ad hoc yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, heblaw am gyfrif ar wahân ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu'r Loteri, y mae'n ofynnol i CGDG ei wneud o dan ei gyfarwyddyd

cyfrifon y Loteri, nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn y gellir rhannu eu gweithgareddau cymorth grant na'u gweithgareddau dosbarthu'r Loteri yn segmentau ar wahân.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â *Managing Public Money* a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i'r ddwy gronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri oedd 99% (2012–13: 99%).

### d) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig o dan adran 507 Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988. Nid yw CGDG yn gallu adennill Treth Ar Werth (TAW) a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

### e) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob aelod o'n staff yn aelodau o PCSPS a hysbysir canran y tâl pensiynadwy gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Gweler nodyn 6 am ragor o fanylion.

### f) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles.

### g) Balansau yn CDdLG

Mae'r balansau sy'n cael eu dal yn CDdLG yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros y modd y caiff y symiau hyn eu buddsoddi. Mae cyfran y balansau hyn i'w phriodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi'i thystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ein hymrwymiadau cyfredol. Caiff y gronfa gwerth teg ei haddasu ar gyfer unrhyw elw neu golled ar ailbrisio balans y CDdLG a adroddir i ni gan DCMS. Datgelir yr addasiad yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Ychwanegir unrhyw elw neu golled gan y CDdLG wrth waredu buddsoddiadau at werth y CDdLG.

### h) Ymrwymiadau Grant

Mae ymrwymiadau "meddal" fel y'u diffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002. Maent yn gytundeb mewn egwyddor gan yr Ymddiriedolwyr i ariannu cynllun. Mae dau fath o ymrwymiad:

1) pan fydd y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant wedi'i wneud, ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r sawl sy'n derbyn y grant. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, disgrifir yr ymrwymiad fel un "caled".

2) pan gaiff pas rownd gyntaf neu bas cam cyntaf ei roi i'r prosiect. Er bod cyllid yn destun ail benderfyniad yn yr amgylchiadau hyn, mae'r ail benderfyniad hwn yn debygol iawn o fod yn un cadarnhaol, ac felly mae'n ddoeth edrych ar y pas rownd gyntaf neu'r pas cam cyntaf fel ymrwymiad meddal ar hyn o bryd.

Nid ystyriwyd ceisiadau a dderbyniwyd dan nawdd ein trydydd cynllun strategol (2008–2013) i'r rhaglen Grantiau Treftadaeth a'r rhaglen Parciau i Bobl yn ymrwymiadau meddal ar adeg y pas rownd gyntaf. Roedd hyn oherwydd bod Ymddiriedolwyr yn disgwyl gwrthod cyfran sylweddol o geisiadau adeg yr ail rownd. Fodd bynnag, am resymau amrywiol, roedd lefel gwrthod ceisiadau yn is o lawer, ac o ddechrau'r fframwaith strategol cyfredol, mae Ymddiriedolwyr bellach yn cydnabod ymrwymiad meddal ar adeg y pas rownd gyntaf. Mae pasiau rownd gyntaf sy'n weddill o gyfnod y trydydd cynllun strategol yn dal heb eu cydnabod fel ymrwymiadau meddal.

Mae dad-ymrwymiadau meddal yn digwydd pan nad yw ymrwymiad meddal yn cael ei droi'n ymrwymiad caled – fel arfer gan fod y sawl sy'n derbyn y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'i brosiect. Mae dad-ymrwymiadau caled yn digwydd pan nad oes angen ar y prosiect sy'n cael ei ariannu yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract. Mae'r holl ymrwymiadau grant yn daladwy ar unwaith pan dderbynnir ceisiadau dilys am daliad.

### i) Benthyciadau
Mae hawl gan yr Ymddiriedolwyr wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Gyfarwyddiadau Ariannol Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth.

### j) Cynlluniau grant ar y cyd
Lle mae CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd, Parciau i Bobl gyda'r Gronfa Loteri Fawr a'r Gwaddolion Catalydd gyda DCMS), nid ydym yn cydnabod symiau a dderbyniwyd gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, caiff arian a dderbynnir gan y cyrff hyn, yn syml, ei basio ymlaen i grantïon neu gyflenwyr. Felly, rydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan ein bod wedi pasio cyfran y Gronfa Loteri Fawr neu DCMS ymlaen i'r grantî.

Yn yr un modd, rydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredol ar gyfer y cynlluniau hyn, ac wedi pasio unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredol a dderbyniwyd gan y Gronfa Loteri Fawr a DCMS ymlaen i'r cyflenwyr.

## 2. Incwm amrywiol

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **120** | 66 |

## 3. Costau a niferoedd staff

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **8,524** | 7,961 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **625** | 566 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,502** | 1,422 |
| Costau staff dros dro | **47** | 144 |
| | **10,698** | 10,093 |

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri fel a ganlyn:

| **2013–14** | Ceisiadau grant | Cyllid a gwasanaethau corfforaethol | Strategaeth a Datblygu Busnes | Cyfathrebu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 161 | 33 | 24.25 | 18 | 236.25 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 13 | 3 | 3 | 2.5 | 21.5 |
| **Cyfanswm** | **174** | **36** | **27.25** | **20.5** | **257.75** |

| 2012–13 | Ceisiadau grant | Cyllid a gwasanaethau corfforaethol | Strategaeth a Datblygu Busnes | Cyfathrebu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 154 | 34.5 | 24 | 17 | 229.5 |
| Secondeion a staff contract | 9 | 2 | 2 | 2 | 15 |
| Cyfanswm | 163 | 36.5 | 26 | 19 | 244.5 |

Nid yw staff dros dro a staff asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau yn caniatáu ar gyfer casglu a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

Mae ffigurau 2012–13 wedi'i hadolygu yn dilyn canfod gwall yn y dull cyfrifo.

## 4. Diffyg gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl yr archwilydd | **39** | 39 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredol | | |
| – safleoedd prydles | **917** | 1,055 |
| – llogi offer a pheiriannau | **0** | 16 |

Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **1,531** | 1,738 |
| Post a ffôn | **464** | 472 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu | **526** | 505 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – Ymddiriedolwyr | **118** | 102 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff | **374** | 378 |
| Ffioedd proffesiynol – cysylltiedig â grant | **2,312** | 2,124 |
| Ffioedd proffesiynol – heb fod yn gysylltiedig â grant | **1,515** | 1,157 |
| Cyfathrebu | **699** | 745 |
| Offer swyddfa | **347** | 310 |
| Hyfforddiant staff | **152** | 112 |
| Costau amrywiol | **101** | 173 |
| | **8,139** | 7,816 |

## 5. Costau a ailgodir

Fel y datgelwyd yn nodyn 1 i'r cyfrifon hyn, mae gofyn i CGDG ddatgelu ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri yn ei chyfrifon dosbarthu arian y Loteri. Mae llawer o'r costau cyffredinol yr aethpwyd iddynt yn y brif swyddfa yn Llundain o fantais i'n gweithgareddau cymorth grant

a'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i weithgareddau dosbarthu'r Loteri oedd 99% (2012–13: 99%). Mae'r holl weithgareddau cymorth grant yn digwydd yn y brif swyddfa yn Holbein Place, Llundain. Mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri.

## 6. Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil – y PCSPS. Ers 30 Gorffennaf 2007, mae staff newydd heb unrhyw aelodaeth PCSPS flaenorol yn gallu ymuno â Nuvos. Mae hwn yn gynllun pensiwn budd-dâl diffiniedig sy'n gysylltiedig â'r mynegai. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau classic, premium a classic plus, a 65 i aelodau Nuvos.

Mae'r staff a ymunodd â CGDG cyn 30 Gorffennaf 2007, neu oedd yn berchen ar aelodaeth PCSPS gymwys o'r blaen wrth ymuno ers y dyddiad hwnnw, yn aros yn un o dri chynllun â buddion wedi'u diffinio 'cyflog terfynol' statudol (classic, classic plus a premium). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a Nuvos eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5% a 6.25% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5% ac 8.25% ar gyfer premium, classic plus a Nuvos. Cynyddodd cyfraddau cyfraniadau cyflogeion ym mis Ebrill 2012 ac Ebrill 2013 fel yr amlinellwyd yn Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 314 a 347. Roedd maint y cynnydd canran yn dibynnu ar gyflog. Bydd cynnydd pellach i gyfraniadau cyflogeion yn gymwys o 1 Ebrill 2014 yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 367.

Mae buddion yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). I bob pwrpas, mae classic plus yn amrywiad o premium, ond gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic, ac mae buddion am wasanaeth ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premium. Yn y cynllun Nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun, 31 Mawrth, caiff cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis cymudo pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Gallai aelodau a ymunodd â CGDG o fis Hydref 2002 fod wedi dewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr, a elwir yn Gyfrif Pensiwn Partneriaeth. Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy at PCSPS i dalu cost yswiriant budd risg cyfandaliad a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac

ymddeoliad yn sgil salwch). Ar hyn o bryd, mae pedwar o aelodau staff â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ni wnaeth yr un aelod o staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod 2013–14.

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrheir gan y PCSPS yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnus. Ar gyfer 2013–14, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,501,896 (2012–13: £1,421,668) i'r PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Mae cyfraniadau cyflogwr i'w hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan *www. civilservice.gov.uk/pensions*

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, fel Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 350:

| Cyflog yn 2013–14 | % yn 2013–14 |
|---|---|
| £21,500 ac is | 16.7% |
| £21,501–£44,500 | 18.8% |
| £44,501–£74,500 | 21.8% |
| £74,501 ac uwch | 24.3% |

## 7. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Gwefan | | Technoleg Gwybodaeth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 250 | 250 | 1,466 | 1,405 | 1,716 | 1,655 |
| Ychwanegiadau | 131 | 0 | 339 | 61 | 470 | 61 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **381** | **250** | **1,805** | **1,466** | **2,186** | **1,716** |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | 250 | 166 | 1,397 | 941 | 1,647 | 1,107 |
| Cost am y flwyddyn | 0 | 84 | 45 | 456 | 45 | 540 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **250** | **250** | **1,442** | **1,397** | **1,692** | **1,647** |
| Gwerth llyfr net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 0 | 84 | 69 | 464 | 69 | 548 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **131** | **0** | **363** | **69** | **494** | **69** |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth wedi digwydd ar gyfer datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesiadau ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebwyd i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Nid yw unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol wedi'u cyfalafu. Mae ychwanegiadau wedi'u hamorteiddio dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig, sef diwedd y cyfnod sy'n dod o dan ein cynllun strategol; h.y. y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018.

Mewn adolygiad o werthoedd cost gyfredol asedau sefydlog anniriaethol, ar 31 Mawrth 2014, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol i werthoedd cost hanesyddol. Felly, nid oes unrhyw addasiad wedi'i wneud i adlewyrchu gwerthoedd cost gyfredol asedau sefydlog anniriaethol.

## 8. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Eiddo prydles fer | | TG ac offer arall | | Ffitiadau swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **1,164** | 1,347 | **2,197** | 2,218 | **61** | 61 | **3,422** | 3,626 |
| Ychwanegiadau | **2** | 168 | **164** | 167 | **20** | 0 | **186** | 335 |
| Gwarediadau | **0** | (351) | **(257)** | (188) | **0** | 0 | **(257)** | (539) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,166** | 1,164 | **2,104** | 2,197 | **81** | 61 | **3,351** | 3,422 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **666** | 927 | **1,600** | 1,623 | **60** | 59 | **2,326** | 2,609 |
| Cost am y flwyddyn | **108** | 90 | **174** | 165 | **3** | 1 | **285** | 256 |
| Addasiad ar waredu | **0** | (351) | **(257)** | (188) | **0** | 0 | **(257)** | (539) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **774** | 666 | **1,517** | 1,600 | **63** | 60 | **2,354** | 2,326 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **498** | 420 | **597** | 595 | **1** | 2 | **1,096** | 1,017 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **392** | 498 | **587** | 597 | **18** | 1 | **997** | 1,096 |

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2014, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth o bwys i werthoedd cost hanesyddol. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% ar gyfer Cronfa'r Loteri ac 1% ar gyfer cymorth gran (gweler nodyn 5).

### Prydlesi cyllid

Roedd rhai o'r eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dal o dan brydlesi cyllid, fel a ddangosir yn y tabl isod. Cynhwysir y ffigurau yn y tabl uchod.

| TG ac offer arall | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **160** | 160 |
| Ychwanegiadau | **0** | 0 |
| Gwarediadau | **(115)** | 0 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **45** | 160 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **141** | 125 |
| Taliadau am y flwyddyn | **9** | 16 |
| Addasiad ar waredu | **(115)** | 0 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **35** | 141 |
| Gwerth llyfr net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **19** | 35 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **10** | 19 |

Y rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid yw:

| TG ac offer arall | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben mewn blwyddyn | **0** | 9 |
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **10** | 10 |
| | **10** | 19 |

Cynhwysir y rhwymedigaethau hyn yn y symiau sy'n daladwy (gweler nodyn 11).

## 9. Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **3,323** | 4,237 |
| Benthyciadau | **100** | 0 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | **30** | 22 |
| Blaensymiau staff | **47** | 44 |
| | **3,500** | 4,303 |

Mae'r benthyciad gyda sefydliad treftadaeth a gellir ei ad-dalu mewn dwy gyfran yn 2018 a 2023. Nid oes unrhyw log yn cael ei godi ar y benthyciad. Nid oedd unrhyw symiau eraill yn ddyledus ymhen mwy na blwyddyn (2012–13: £0).

O'r symiau uchod, roedd £2,744,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 51 aelod o staff flaensymiau cyflogres yn ddyledus (ar 31 Mawrth 2013, roedd 51).

## 10. Buddsoddiadau

Symudiadau balansau yn CDdLG:

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn | **475,331** | 375,270 |
| Incwm a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol | **332,037** | 387,150 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr gan CGDG | **(297,548)** | (268,952) |
| Cyllid a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd | **(0)** | (20,208) |
| Adenilliad buddsoddiad | **1,552** | 2,071 |
| Elw heb ei wireddu ar fuddsoddiad | **0** | 0 |
| **Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn** | **511,372** | 475,331 |

Paratowyd y cyfrifon ar gyfer 2012–13 gan ddefnyddio tystysgrif interim a roddwyd gan DCMS. Trefnwyd bod gwybodaeth ddilynol ar gael gan DCMS, ar ôl i'r cyfrifon gael eu llofnodi, a ddiwygiodd y balans i £469,533,000. Dangosir y gwahaniaeth rhwng y ddau brisiad ar 31 Mawrth 2013 fel gostyngiad yn y gyfran enillion gweithredwyr yn 2013–14. Byddai enillion gweithredwyr net wedi bod yn £337,835,000 heb yr addasiad hwn.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a wireddir gan CGDG. Y DCMS sy'n buddsoddi'r arian hwn ac sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadenillion at y balans cyffredinol sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisïau cyfrifyddu'n cynnwys mwy o wybodaeth am y mater hwn.

## 11. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredol sy'n daladwy | **764** | 604 |
| Symiau eraill sy'n daladwy gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | **393** | 364 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **1,382** | 1,670 |
| | **2,539** | 2,638 |

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CDL. Gellir dadansoddi'r balansau gweithredol a balansau symiau eraill sy'n daladwy fel a ganlyn:

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **397** | 364 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **0** | 14 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **0** | 0 |
| Balansau allanol i lywodraeth | **760** | 590 |
| | **1,157** | 968 |

## 12. Ymrwymiadau grant

### Ymrwymiadau caled

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **740,217** | 625,940 |
| Trosglwyddiadau o ymrwymiadau meddal | **407,868** | 370,677 |
| Dad-ymrwymiadau | **(15,124)** | (7,046) |
| Ymrwymiadau a dalwyd | **(287,521)** | (249,354) |
| **Cariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **845,440** | 740,217 |

### Ymrwymiadau meddal

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **100,707** | 74,696 |
| Ymrwymiadau meddal a wnaed | **690,637** | 398,546 |
| Dad-ymrwymiadau meddal | **(9,766)** | (1,858) |
| Trosglwyddiadau i ymrwymiadau caled | **(407,868)** | (370,677) |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **373,710** | 100,707 |

Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

### Ymrwymiadau caled

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn | **338,176** | 296,087 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **507,264** | 444,130 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **845,440** | 740,217 |

Mae'r balans ymrwymiadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **92,283** | 98,630 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **309,860** | 273,317 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **260** | 203 |
| Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau'r GIG | **22** | 5 |
| Balansau allanol i lywodraeth | **443,015** | 368,062 |
| | **845,440** | 740,217 |

## 13. Ymrwymiadau

Mae cyfanswm yr ymrwymiadau gan CDL sy'n ddyledus o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

| | 2013–14 £'000 | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles fer** | | |
| Yn dod i ben ymhen blwyddyn | **133** | 1 |
| Yn dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **996** | 265 |
| Yn dod i ben wedi hynny | **8,592** | 10,611 |
| | **9,721** | 10,877 |
| **Prydlesi gweithredol eraill** | | |
| Yn dod i ben ymhen blwyddyn | **0** | 0 |
| Yn dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **0** | 0 |
| Yn dod i ben wedi hynny | **0** | 0 |
| | **0** | 0 |

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf ein prif swyddfa yn 7 Holbein Place, Llundain. Roedd yr isbrydles hon am oddeutu 13 o flynyddoedd a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.7miliwn – y bydd rhan fach ohono'n cael ei ddyrannu i weithgareddau CGDG nad ydynt yn ymwneud â dosbarthu'r Loteri. Nid yw'r derbyniadau disgwyliedig oddi wrth CCC wedi'u didynnu o'r ymrwymiadau a ddatgelir yn y tabl uchod.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 17 yn pennu gofyniad i brydlesi eiddo gael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi'i wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan mai bach iawn o dir sydd o dan y prydlesi hyn.

Nid oes gan CDL unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

## 14. Nodiadau i'r Datganiad Llifoedd Arian

### a) Cysoni diffyg gweithredol i (all-lif)/fewn-lif arian o weithgareddau gweithredu

| | 2013–14 £'000 | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol | **(78,147)** | (13,200) |
| Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian: | | |
| – dibrisiad | **330** | 796 |
| – colled ar waredu asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer | **0** | 0 |
| – (gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau eraill | **(0)** | (0) |
| – symudiad yn y gronfa wrth gefn gwerth teg | **0** | 0 |
| – cynnydd yn y gronfa wrth gefn ymrwymiadau grant | **105,223** | 114,277 |
| – cynnydd yn y balans yn CDdLG | **(36,041)** | (100,061) |
| Gostyngiad mewn symiau di-log sy'n dderbyniadwy | **803** | 5,254 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy | **(99)** | 282 |
| (All-lif)/mewn-lif arian net o weithgareddau gweithredu | **(7,931)** | 7,348 |

## b) Gwariant cyfalaf

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gael asedau sefydlog anniriaethol | **470** | 61 |
| Taliadau i gael eiddo, peiriannau ac offer | **186** | 335 |
| | **656** | 396 |

## c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

| | 1 Ebrill 2013 £'000 | Llifoedd arian £'000 | **31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 9,912 | (8,587) | **1,325** |

## 15. Trafodion partïon perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y DCMS. Ystyrir bod y DCMS yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri) wedi cael trafodion arwyddocaol amrywiol, heblaw dyfarniadau grantiau, â DCMS ei hun ac â thri endid yr ystyrir mai'r DCMS sy'n eu noddi – sef y Gronfa Loteri Fawr, Cyngor Celfyddydau Lloegr ac English Heritage.

Mae CGDG yn rhedeg rhaglen grantiau'r Loteri, Gwaddolion Catalydd. Cytunodd DCMS i gyfrannu £15miliwn tuag at gyfanswm £25.5miliwn y dyfarniadau a wnaed o dan y rhaglen yn 2012–13. Yn ystod 2013–14, talom £2.3miliwn ar ran DCMS, a thalwyd y cyfan yn ôl i ni erbyn diwedd y flwyddyn. Hefyd, mae gennym femorandwm telerau dealltwriaeth gyda DCMS yn ymwneud ag adeilad ar gyfer ein swyddfa yn Birmingham am y cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2015. Cyfanswm disgwyliedig y gwariant o dan y cytundeb yw £68,667, ac nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar 31 Mawrth 2014.

Cyfrannodd y Gronfa Loteri Fawr tuag at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parciau i Bobl, a hefyd tuag at y costau gweithredu ar gyfer y rhaglen honno. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr ddyled o £2,730,645 i CGDG, sef £97,315 ar gyfer costau gweithredu a £2,633,330 ar gyfer eu cyfran o daliadau grant. Hefyd, talom y Gronfa Loteri Fawr am nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn; yn fwyaf nodedig, y rhaglen grant Celebrate Scotland, a weithredid ar ran nifer o ddosbarthwyr y Loteri. Talom £129,000 iddynt yn y flwyddyn, yn cynnwys £72,000 i'w had-dalu am daliadau grant a wnaed ar ein rhan. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus iddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Defnyddiom English Heritage i adolygu rhywfaint o'n llenyddiaeth ac i ddarparu gwasanaethau monitro prosiect ar un o'n grantiau; roedd £1,260 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfrannom tuag at gost rhywfaint o ymchwil gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr; nid oedd unrhyw arian yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, cafwyd nifer o drafodion o bwys gyda Swyddfa'r Cabinet a wnaeth gwaith gweinyddu pensiynau ar ein rhan; nid oedd unrhyw arian yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG, yn 7 Holbein Place, Llundain. Mae CCC yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ar y cyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, DEFRA, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Oddeutu 13 mlynedd yw hyd yr isbrydles hon, a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.7miliwn. Yn ogystal, bydd CCC yn gwneud cyfraniadau at gost rhedeg Holbein Place o ryw £70,000 y flwyddyn ar lefelau prisiau 2013–14. Ar 31 Mawrth 2014, roedd rhyw £1,150 yn ddyledus gennym i CCC am ordaliadau am wasanaeth.

Fel y nodir isod, roedd gan Ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff y gwnaed grantiau Loteri iddynt gan CGDG. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r pwyllgorau gweldig a rhanbarthol fuddiannau mewn prosiectau a gafodd grantiau Loteri gan eu pwyllgor neu gymeradwyaethau i fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor i ddatgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod a pheidio â mynychu unrhyw ran o'r cyfarfod hwnnw lle mae'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod. Ni chymerant unrhyw ran yn y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu grant nac unrhyw benderfyniad dilynol a wneir ynglŷn â'r grant hwnnw. Mae yna reolau llym hefyd yn ymwneud â'r amgylchiadau y gall Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith am dâl gan y sawl sy'n derbyn grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na wnaeth yr unigolion mewn unrhyw achos ddylanwadu ar y broses benderfynu.

Bydd trafodion partïon perthynol wedi digwydd yn 2013–14 hefyd, ar ffurf taliadau grant, a oedd yn ymwneud â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan fod y trafodion partïon perthynol hynny wedi'u datgelu'n flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
*Oriel Tate*
Grant o £15,800,000 – Aspire – 'Salisbury Cathedral from the Meadows' gan Constable.
Datganwyd buddiant gan Virginia Tandy gan y cafodd ei chomisiynu gan Oriel Tate i gadeirio eu prosiect 'Artists' Rooms'.

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor*
Cynnydd grant o £161,600, i wneud cyfanswm grant o £662,500 – Exmoor Moorland Landscape Partnership.
Datganwyd buddiant gan Doug Hulyer am fod Natural England, yr oedd yn aelod bwrdd ohono, yn gysylltiedig â'r cais, a oedd hefyd o fewn ei faes goruchwylio ef yn Natural England.

*Amgueddfa'r Rhyfel Imperialaidd*
Grant o £5,000,000 – Rhaglen Ddiwylliannol y Rhyfel Byd Cyntaf.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Virginia Tandy gan y bu'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer gwerthuso'r rhaglen.

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent*
Grant o £1,550,000 – Menter Treftadaeth Treflun Tredegar.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Manon Williams yn sgil ei rôl fel Prif Weithredwr Twristiaeth a Marchnata i Gymru Llywodraeth Cymru.

*Dinas a Sir Abertawe*
Grant o £935,700 – Arddangosfa Dylan Thomas.
Datganwyd buddiant gan Manon Williams gan fod ei hadran yn Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, yn gysylltiedig â chyflwyno'r prosiect ac wedi cyfrannu cyllid partneriaeth at y prosiect.

*Archesgobaeth Caerdydd*
Grant o £80,000 a phas rownd gyntaf o £1,126,000 – Conglfaen: Archesgobaeth Caerdydd.
Datganwyd buddiant gan Manon Williams am mai ei phartner oedd trysorydd yr Archesgobaeth.

*Cyngor Dosbarth Dwyrain Dyfnaint*
Grant o £56,500 a phas rownd gyntaf o £521,000 – Natural Seaton – The Living Jurassic Coast.
Adroddodd Doug Hulyer am wrthdaro am y bu'n gysylltiedig â'r ymgeisydd a'r gymuned leol mewn perthynas â'r prosiect hwn, a hefyd roedd yn gadeirydd grŵp llywio'r prosiect.

Aelodau pwyllgor

*Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Diwylliannol Luton*
Grant o £78,200 – Taking the next step: Improving heritage commercialisation at Luton Culture.
Maggie Appleton yw Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Diwylliannol Luton.

*Ymddiriedolaeth Archaeolegol Caerefrog*
Grant o £10,000 – A&E heritage rescue: researching the long-lost past of Attenborough and the Erewash.
John Everitt yw Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Nottingham sy'n bartner yn y prosiect gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Caerefrog.

*Ymddiriedolaeth Avenue House*
Grant o £101,600 a phas rownd gyntaf o £1,893,700 – prosiect adfer Avenue House Estate.
Roedd Jon Sheaff yn ymgynghorydd ar gyfer y prosiect adfer.

*Legasee Education Trust*
Grant o £62,900 – Keeping Britain Afloat.
Bill Ferris yw Prif Weithredwr Iard Longau Hanesyddol Chatham a oedd yn bartner yn y prosiect.

*Cyngor Cernyw*
Grant o £17,500 – Young Ambassadors: in Cornwall's Museums.
Mae Tamsin Daniel yn gweithio i Gyngor Cernyw.

*Caliban (Cornwall) CIC*
Grant o £58,400 – Plen ân Gwari: the playing places of Cornwall.
Rhoddodd Tamsin Daniel gyngor i'r grantî.

*Cyngor Sir Fynwy*
Grant o £23,500 – Meithrin cefnogaeth i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer Amgueddfeydd Sir Fynwy
Mae Megan de Silva yn gweithio i Wasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy. Nid oedd Megan yn gysylltiedig â'r prosiect.

*Amgueddfa Archaeoleg Llundain*
Grant o £75,500 a phas rownd gyntaf o £1,351,100 – CITiZAN – The Coastal & Intertidal Zone Archaeological Network.
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau am ei fod yn ymddiriedolwr y Cyngor Archaeoleg Brydeinig a oedd yn bartner yn y prosiect ac a fyddai'n elwa o'r prosiect.
Datganwyd buddiant gan Mike Heyworth am fod ei gyflogwyr, y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, yn debygol o elwa.

*Bwrdeistref Wandsworth yn Llundain*
Grant o £1,915,000 – Living Wandle
Datganodd Jennifer Ullman wrthdaro buddiannau am ei bod wedi cyd-ysgrifennu'r cais rownd gyntaf.

*Bwrdeistref Wandsworth yn Llundain*
Grant o £273,200 a phas rownd gyntaf o £1,177,400 – Tooting Common Heritage Project.
Datganodd Jennifer Ullman fuddiant am ei bod yn gweithio i'r Cyngor ac wedi gweld y cais cyn ei gyflwyno.

*Y Parciau Brenhinol*
Grant o £334,200 a phas rownd gyntaf o £3,443,600 – Prosiect Cadwraeth Mynwent Brompton.
Datganwyd buddiant gan Wesley Kerr am ei fod yn aelod o fwrdd y Parciau Brenhinol.

*Oriel Ben Uri*
Grant o £14,500 a phas rownd gyntaf o £289,400 – 100 years of Ben Uri.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Hilary Carty am fod partner yr arddangosfa – Inigo Rooms, yn rhan o'r Sefydliad Diwylliannol yng Ngholeg King's Llundain yr oedd yn gwneud gwaith am dâl iddynt.

*Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Northumberland*
Grant o £26,500 a phas rownd gyntaf o £385,200 – Dynamic Druridge.
Datganwyd buddiant gan Chris Mullin am mai ef oedd Llywydd sefydliad yr ymgeiswyr.

*Prifysgol Newcastle*
Grant o £154,000 a phas rownd gyntaf o £2,400,000 – Revitalising Newcastle's Hatton Gallery.
Datganwyd buddiant gan Lindsay Allason-Jones fel cyn-gyflogai i Brifysgol Newcastle ac mae ar Fwrdd GNM, a oedd yn gweinyddu Oriel Hatton.

*Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol*
Grant o £164,400 a phas rownd gyntaf o £2,881,400 – Quarry Bank.
Datganwyd buddiant gan Tiffany Hunt yn fel cyn Gyfarwyddwr Rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

*Cyngor Dwyrain Swydd Gaer*
Grant o £76,600 a phas rownd gyntaf o £616,700 – Tatton Dale Farm Heritage.
Datganwyd buddiant gan Tiffany Hunt yn Tatton Dale Farm fel cyn Gyfarwyddwr Rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

*The Reader Organisation*
Grant o £115,200 a phas rownd gyntaf o £1,861,900 – Connect at Calderstones.
Datganwyd buddiant gan Ivan Wadeson fel cyn gyfarwyddwr yr ymgeisydd.

*Historic Scotland*
Grant o £25,500 a phas rownd gyntaf o £3,467,000 – Historic Scotland National Conservation Centre.
Datganwyd buddiant gan Eleanor McAllister am ei bod yn Aelod Ymgynghorol ar gyfer Historic Scotland.

*Scottish Natural Heritage*
Grant o £29,800 a phas rownd gyntaf o £844,000 – Scottish Wildcat Conservation Project.
Adroddodd Simon Pepper bod gwrthdaro buddiannau am mai Scottish Natural Heritage, ei gyflogwr, oedd yr ymgeisydd.

*Ymddiriedolaeth New Lanark*
Grant o £94,000 a phas rownd gyntaf o £1,500,500 – Cwblhau Gwaith Adfer a Dehongli yn Nhai Gweithwyr Melin Hanesyddol Safle Treftadaeth y Byd New Lanark. Datganwyd buddiant gan Willie Macleod am ei fod yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth New Lanark.

*RSPB yr Alban*
Grant o £1,900,000 – Inner Forth Landscape Initiative.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Simon Pepper am fod Scottish National Heritage, yr oedd yn aelod Bwrdd ohono, yn cadeirio bwrdd y bartneriaeth.

*Cyngor Sir Caint*
Grant o £1,310,000 – Folkestone Townscape Heritage Initiative
Datganwyd buddiant gan Paul Hudson am y gofynnwyd iddo gadeirio'r grŵp strategaeth.

*Awdurdod Parc Cenedlaethol y New Forest*
Grant o £161,100 a phas rownd gyntaf o £2,838,000 – Our Past, Our Future.
Datganwyd buddiant gan Debbie Tann am fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, yr oedd yn Brif Weithredwr arni, yn bartner yn y prosiect.

*Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Wyth*
Grant o £103,000 a phas rownd gyntaf o £1,547,500 – Down to the Coast – East Wight.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Debbie Tann am fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth, yr oedd yn Brif Weithredwr arni, yn bartner yn y prosiect.

*Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs*
Grant o £48,300 a phas rownd gyntaf o £1,471,600 – Heathlands Reunited.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Debbie Tann am ei bod yn Brif Weithredwr ar sefydliad partner.

*Cyngor Cernyw*
Grant o £386,800 a phas rownd gyntaf o £9,408,700 – Kresen Kernow: A new home for the stories of Cornwall.
Datganodd Hilary Bracegirdle fod Sefydliad Brenhinol Cernyw, ei chyflogwr, wedi anfon llythyr o gefnogaeth yn cadarnhau y byddai ei hamgueddfa'n dymuno gweithio gyda'r prosiect Kresen Kernow.

*Partneriaeth Datblygu Diwylliannol Bryste*
Pas rownd gyntaf o £138,400 – Bristol 2014: The City and Twentieth-Century Conflict.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Julie Finch am fod ei chyflogwr, Cyngor Dinas Bryste, yn un o'r sefydliadau partner a fyddai'n derbyn cyllid

*Cyngor Sir Cernyw*
Grant o £55,100 a phas rownd gyntaf o £805,700 – King Edward Mine Museum.
Adroddwyd am wrthdaro buddiannau gan Tamsin Daniel am ei bod yn gweithio i'r ymgeisydd.

*Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinas Plymouth*
Grant o £326,300 – Reynolds Portrait & Sketchbook Acquisition.
Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Hilary Bracegirdle am mai hi oedd wedi ysgrifennu'r cais ac roedd yn gweithio i Amgueddfa Plymouth.

*Cyngor Sir Penfro*
Grant o £1,200,000 – Menter Treftadaeth Treflun Hwlffordd Cam 2.
Datganwyd buddiant gan Ted Sangster am ei fod yn gyfarwyddwr un o'r sefydliadau partner, Menter Busnes Sir Benfro.

*Cyngor Sir Powys*
Grant o £51,000 a phas rownd gyntaf o £227,700 – Prosiect Cofebau Rhyfel Powys 2014–2018, Arwydd o Barch/A Mark of Respect.
Datganwyd gwrthdaro buddiant gan Carys Howell am ei bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a oedd yn bartner yn y cais.

*Cyngor Eglwys Blwyf St Giles*
Grant o £46,900 a phas rownd gyntaf o £572,100 – St Giles Heritage Churchyard.
Datganwyd buddiant gan Alan Taylor am ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynghori Esgobaethol a oedd wedi argymell caniatâd ar gyfer y prosiect ac wedi bod yn rheolwr llinell i'r swyddog cymorth eglwysi yn English Heritage.

*Cyngor Swydd Amwythig*
Grant o £12,823,300 – Ditherington Flax Mill Maltings, International Heritage site at the heart of the community.
Datganwyd buddiant gan Alan Taylor am mai ei gyflogwr, English Heritage, oedd yn berchen ar Ditherington Flax Mill Maltings.

*Ymddiriedolaeth Compton Verney House*
Grant o £179,600 a phas rownd gyntaf o £2,296,900 – Capel Compton Verney a phrosiect adfer y dirwedd.
Datganwyd buddiant gan Ian Grosvenor am fod ei bartner yn ymddiriedolwr i'r ymgeisydd.

*Gwasanaeth Archifau ac Archaeoleg Cyngor Sir Swydd Gaerwrangon*
Grant o £353,200 – Worcestershire World War One Hundred.
Datganwyd buddiant gan Ian Grosvenor am fod ei gyflogwr, Prifysgol Birmingham, yn bartner gyda Hive (y partner cyflwyno) mewn cais am gyllid ymchwil cydweithredol ar gyfer prosiect ar y Rhyfel Byd Cyntaf.

*Ymddiriedolaeth Adeiladau Hanesyddol Gorllewin Canolbarth Lloegr*
Grant o £1,025,000 – Prosiect cadwraeth adeiladau Lye & Wollescote Cemetery Chapels.
Datganwyd buddiant gan Alan Taylor am ei fod yn adnabod, ac wedi gweithio'n agos â'r ymgeiswyr ar gynlluniau eraill.

Staff
Nid oedd unrhyw staff.

## 16. Offerynnau ariannol

Mae datgeliad llawn o dan IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau', yn Sylwadau'r Rheolwyr.

## 17. Cronfa wrth gefn gwerth teg

| | **2013–14 £'000** | 2012–13 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **0** | 3,386 |
| Gwireddu'r enillion ailbrisio ar falans CDdLG | **0** | (3,386) |
| Enillion ailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn ar falans CDdLG | **0** | 0 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** | 0 |

Mae'r gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cost llyfr a gwerth marchnad y balans yn CDdLG (gweler nodyn 10). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodiadau 7 ac 8) yn berthnasol.

## 18. Datganiad o golledion

Gwnaeth CDL golledion drwy ddiddymu un grant gwerth £15,974 yn ystod y flwyddyn (2012–13: pump o golledion i gyfanswm o £105,550

# Cyfarwyddiadau Polisi

Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i CDL o dan Ddeddf 1993. Daeth y cyfarwyddiadau presennol i rym yn 2008. Fel o'r blaen, mae'r rhain yn faterion sydd i'w hystyried wrth ddosbarthu arian.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarwyddiadau polisi yn ymwneud ag arian a ddosberthir yng Nghymru, ac yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gyfarwyddiadau ar gyfer arian a ddosberthir yn yr Alban. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r DU, ac fe'u hatgynhyrchir yn llawn ar dudalennau 55 i 57.

## a) Anghenion y dreftadaeth

> "Asesiad CDL o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw"

Yn 2013–14 mae'r galw am arian y Loteri ar gyfer treftadaeth wedi bod ar ei lefel uchaf er 1998, ar bob lefel grantiau. O ganlyniad i werthiannau tocynnau yn parhau'n gadarn roeddem yn gallu ymrwymo £690.6miliwn mewn dyfarniadau, yn erbyn ceisiadau gwerth £1,028miliwn (i fyny 16% ar 2012–13).

Hon oedd y flwyddyn weithredu gyntaf o dan y fframwaith strategol ar gyfer 2013–2018, *Gwahaniaeth parhaus ar gyfer treftadaeth a phobl*. Llywiwyd yr egwyddorion a'r themâu sy'n sylfaen i newidiadau yn ein strategaeth, rhaglenni a mentrau targedig a gyflwynwyd yn sgil hyn gan yr ymgynghoriad strategol a gynhaliwyd yn 2011; ymatebodd dros 2,000 o bobl, o bob rhan o'r sector treftadaeth a'r cyhoedd, i'r ymgynghoriad hwn.

Parhaom i gefnogi'r sector mewn amgylchedd gweithredu heriol, gan lansio rhaglenni a mentrau newydd i fynd i'r afael â'r angen i adeiladu mwy o gydnerthedd a hyrwyddo arloesed mewn sefydliadau treftadaeth, er mwyn cefnogi twf, a llenwi bylchau sgiliau a nodwyd.

Bydd dyfarniadau o dan ymbarél adeiladu gallu Catalydd a rhaglenni grantiau bach yn 2013–14 yn darparu dros 15,000 o gyfleoedd hyfforddi i gynorthwyo sefydliadau treftadaeth i ddenu mwy o fuddsoddiadau preifat a helpu dros 120 o sefydliadau i gryfhau eu dull o godi arian preifat a chynhyrchu incwm gydag adnoddau ychwanegol, mentora a datblygu sgiliau. Bydd Grantiau Cychwyn, a lansiwyd ym mis Ebrill 2013, yn cynorthwyo cymunedau sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb newydd am asedau treftadaeth i gael cychwyniad da gyda chyngor ar ddewisiadau llywodraethu a strategol priodol, tra bod Arian Pontio ar gael yn awr i gynorthwyo cyn grantïon y mae angen iddynt adolygu eu modelau, eu cynlluniau a'u strategaethau busnes cyfredol a gwneud newidiadau. Mewn partneriaeth â NESTA a'r Gronfa Loteri Fawr, lansiom y fenter Ailfeddwl am Barciau ym mis Tachwedd 2013 i ysgogi arloesedd wrth ddatblygu modelau newydd ar gyfer rheoli parciau a chynhyrchu incwm.

Mae'r rhaglen newydd Menter Treftadaeth wedi denu diddordeb cadarn o bob cwr o'r DU yn ei blwyddyn gyntaf, gyda dyfarniadau gwerth £28.2miliwn. Roedd gor-danysgrifio mawr hefyd ar yr ail raglen Sgiliau i'r Dyfodol. Bydd grantiau gwerth cyfanswm o £20.3miliwn i 39 o brosiectau yn darparu lleoedd hyfforddi yn y gwaith o ansawdd uchel i dros 900 o hyfforddeion mewn treftadaeth.

Dangosodd ein hymgynghoriad gefnogaeth gref i fenter i alluogi amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i fabwysiadu dull strategol o gasglu, a lansiom yr ail raglen Casglu Diwylliannau ym mis Tachwedd 2013, gyda dyfarniada i'w gwneud yn 2014–15. Rydym hefyd wedi sicrhau bod digwyddiadau a phen-blwyddi cenedlaethol a lleol pwysig yn cael eu nodi, a bod dealltwriaeth gwell ohonynt, drwy ein cefnogaeth i brosiectau sy'n coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac ymrwymiad o £10miliwn i gyllido pen-blwyddi pwysig drwy'r holl raglenni. Yn 2013–14 dyfarnom £31.8miliwn i 468 o brosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, ac o'r rheiny roedd 339 yn grantiau bach i gymunedau ledled y DU o dan ein rhaglen Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw a lansiwyd ym mis Mai 2013.

## b) Cynnwys y cyhoedd

> "Yr angen i gynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian."

Wrth ddatblygu ein strategaethau ariannu, ymgynghorwn yn rheolaidd â chwsmeriaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri, er mwyn cael safbwynt y defnyddiwr olaf ar ein gwaith, i lywio ein polisi a'n harfer, ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn a wnawn. Lluniwyd y fframwaith strategol presennol drwy ymgynghori'n helaeth, a rhoddir ein holl ddeunyddiau a'n prosesau ymgeisio ar brawf gyda chwsmeriaid ar yr holl lefelau grant.

Rydym wedi parhau â'n polisi recriwtio'n agored i'n pwyllgorau ym mhob ardal o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau rhwng £100,000 a £2filiwn. Yn 2013–14 fe wnaethom benodi 23 o aelodau pwyllgor newydd. Er 2008 rydym wedi cynnwys pobl ifanc yn rheolaidd yng ngwaith CDL ac yn 2013–14 parhaom â hyn drwy ddatblyu ffilmiau byrion gan ddefnyddio profiad y bobl ifanc ar ein rhaglen Gwreiddiau Ifanc i annog rhai eraill i ymgeisio.

## c) Mynediad a chyfranogiad

"Yr angen i gynyddu mynediad a chyfranogiad i'r rheiny nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd ar y cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig"

Gan barhau â'n hymrwymiad i ehangu cynulleidfaoedd ar gyfer treftadaeth, fel rhan o'r fframwaith strategol presennol, un o'r deilliannau prosiect yr aseswn yn ei erbyn yw, gyda'n buddsoddiad, y bydd 'mwy o bobl, ac ystod ehangach o bobl, yn cymryd rhan weithredol yn eu treftadaeth'. Yn ein rhaglen Grantiau Treftadaeth, pwysolir y deilliant hwn yn ein hasesiad o geisiadau grant dros £2filiwn, a gofynnwn i ymgeiswyr sy'n pasio ein proses rownd gyntaf i amlinellu sut fyddant yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn cynllun gweithgarwch manwl. Ar lefel isaf ein hysgol grantiau, rydym wedi creu rhaglenni grantiau cymunedol newydd i ehangu mynediad mwy fyth i'n cyllid i ymgeiswyr newydd a'r rheiny sy'n newydd i dreftadaeth.

Eleni rydym wedi mireinio a symleiddio ein canllaw arfer da i helpu ein hymgeiswyr i ddeall y rhwystrau y gallai rhai grwpiau eu hwynebu wrth gael mynediad i dreftadaeth, a sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn. Mae gwaith allymestyn a datblygu ein timau gweithredu lleol, ein gwefan wedi'i diweddaru a thaflenni rhaglenni a'r astudiaethau achos a gyhoeddwn, wedi parhau i annog ein holl ymgeiswyr i wneud eu prosiectau mor gynhwysol ag y bo modd. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi ariannu ystod eang o amgueddfeydd, adeiladau, tirweddau ac atyniadau i ymwelwyr; mae ein buddsoddiad mewn staff medrus, marchnata wedi'i dargedu, gwell mynediad a mwy o gaffis a chyfleusterau eraill wedi dangos ei fod yn denu cynulleidfaoedd newydd sylweddol i dreftadaeth.

Rydym wedi cadw'r nod corfforaethol yn ein cynllun busnes i gynyddu amrywiaeth yn ein harfer o roi grantiau, ac yn benodol, gwelsom fuddsoddiadau mewn prosiectau'n cael eu harwain gan sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau pobl o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn cynyddu unwaith eto dros y flwyddyn ddiwethaf. Er 1994 rydym wedi dyfarnu mwy na £176miliwn i dros 3,300 o brosiectau sy'n archwilio ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol y DU; roedd 59% o'r prosiectau hyn yn cael eu harwain gan grwpiau BAME. Rydym wedi monitro ein cynnydd yn gweithio gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy Grŵp Arfer Cynhwysiant mewnol, sy'n defnyddio staff ledled y DU ac yn hyrwyddo ymchwil, arfer allanol a hyfforddiant, a'n Grŵp Llywio Cydraddoldeb, dan gadeiryddiaeth ein Prif Weithredwr. Un ffocws ar gyfer hyfforddiant staff eleni fu'r thema amrywiaeth a'r Rhyfel Byd Cyntaf.

## d) Plant a phobl ifanc

"Yr angen i ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ennyn eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau y mae achos da'r dreftadaeth yn ymwneud â hwy."

Plant a phobl ifanc yw buddiolwyr mwyafrif helaeth y prosiectau a ariennir gennym, boed fel ymwelwyr gydag ysgolion neu deulu â safleoedd treftadaeth, cyfranogwyr mewn rhaglenni gweithgareddau gwyliau, neu fel myfyrwyr lleoliadau gwaith neu wirfoddolwyr.

Mae llawer o brosiectau wedi parhau i dargedu teuluoedd fel cynulleidfa allweddol eleni, ac mae niferoedd mawr iawn o blant ysgol wedi elwa ar ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth o ganlyniad i brosiectau a ariennir gan CDL, er enghraifft mewn amgueddfeydd neu warchodfeydd natur. Er 1994, rydym wedi ariannu dros 1,200 o swyddi addysg treftadaeth ac wedi creu mwy na 660 o leoedd ar gyfer dysgu, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth dan do ac yn yr awyr agored, theatrau ffilm ac ardaloedd chwarae naturiol. Rydym yn awyddus i annog mwy o blant, beth bynnag yw eu cefndir, i ymgysylltu â threftadaeth. I gefnogi adolygiad y Llywodraeth, Cultural Education in England, rydym wedi parhau i weithio fel partneriaid allweddol o'r Grŵp Partneriaeth Addysg Ddiwylliannol gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, English Heritage a Sefydliad Ffilm Prydain i annog cydweithrediadau newydd ar lefel leol er mwyn darparu dysgu diwylliannol o ansawdd uchel.

Mae ein rhaglen ariannu Gwreiddiau Ifanc yn targedu pobl ifanc 11–25 oed ac yn eu hannog i arwain prosiectau treftadaeth arloesol. Er 2002, rydym wedi gwneud dros 1,500 o ddyfarniadau Gwreiddiau Ifanc, ac eleni buddsoddwyd £3.2miliwn gennym mewn 95 o brosiectau ledled y DU. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl ifanc, gan gynnwys y rheiny mewn cymunedau gwledig ac ystadau tai trefol, pobl ifanc anabl a'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yn gysylltiedig â'r rhaglen, lansiom arweiniad newydd penodol eleni *Sut i gynnwys pobl ifanc mewn prosiectau treftadaeth* ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc 11–25 oed, a gweithiom gyda phobl ifanc i ddatblygu tair ffilm fer i hyrwyddo'r rhaglen Gwreiddiau Ifanc i fwy o grwpiau. Bydd hyn yn cael ei ledaenu gan ein timau datblygu a thrwy bartneriaeth gyda'r Asiantaeth Cyfryngau Ieuenctid; maent wedi'u cylchredeg yn eang trwy dudalen Facebook Gwreiddiau Ifanc a'n sianel YouTube.

Rydym yn ymroddedig i werthuso ein cyllid ac i rannu arfer ymhlith grantïon. Cynhaliom brosiect ymchwil eleni a gyfwelodd â grŵp bychan o bobl ifanc rai blynyddoedd ar ôl iddynt gyfranogi mewn prosiect Gwreiddiau Ifanc, a nodwyd rôl y prosiect o ran adeiladu hyder, sgiliau ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth. Hefyd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, lansiwyd ein cymuned ar-lein newydd, sef menter beilot i gynnal prawf ar y ffyrdd y gallwn gefnogi ein hymgeiswyr i rannu dysgu o'u prosiectau. Rydym wedi datblygu gofod pwrpasol i'r rhai sy'n derbyn grant Gwreiddiau Ifanc lle maent wedi dechrau rhannu adnoddau a deilliannau.

## e) Cymunedau

> "Yr angen i feithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, sy'n cyfoethogi tir y cyhoedd ac yn cryfhau cymunedau."

Mae ein golwg o dreftadaeth yn parhau yn un eang a chynyddol, a gofynnwn i gymunedau ddiffinio drostynt eu hunain yr hyn maent yn ei werthfawrogi fwyaf o'r gorffennol pan fyddant yn gwneud ceisiadau drwy ein rhaglenni agored. Fel arfer, rydym wedi ariannu amrywiaeth eang o gymunedau eleni – cymunedau daearyddol seiliedig ar leoedd ar draws y DU, cymunedau sy'n rhannu cefndir diwylliannol neu gymdeithasol, a chymunedau buddiant, yn amrywio o'r rhai sy'n ymddiddori'n fawr mewn dyfrffyrdd i bobl sydd â diddordeb i ddysgu am ffurfiau dawns treftadaeth.

Yn 2013–14, lansiwyd rhaglen grantiau agored newydd gennym, Rhannu Treftadaeth, i helpu grwpiau lleol archwilio, rhannu a dathlu eu treftadaeth drwy ddigwyddiadau, arddangosfeydd, gwyliau a dathliadau. Gan gynnig grantiau o £3,000–£10,000 yn seiliedig ar ffurflen gais syml newydd, mae'r galw wedi bod yn uchel am y rhaglen hon yn ei blwyddyn gyntaf. Rydym wedi ystod eang o brosiectau a chymunedau amrywiol ledled y DU, gan gynnwys ymgeiswyr newydd. Mae'r galw wedi parhau'n uchel ar gyfer ein rhaglen grant Ein Treftadaeth, yn ariannu prosiectau cymunedol o dan £100,000.

Mae llawer o'r 534 o brosiectau a ariannwyd gan ein rhaglen Ein Holl Straeon yn 2012 wedi cwblhau eu cyflawni eleni, ac maent wedi ymgysylltu miloedd o bobl sy'n newydd i dreftadaeth. Fe'u cefnogwyd gan ymchwilwyr o 18 o brifysgolion a ariannwyd gan ein

partneriaid, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. I greu gwaddol i'r rhaglen ac i ddathlu cyflawniadau'r grwpiau cymunedol, rydym wedi gweithio gyda Historypin hefyd i helpu'r rhai sy'n derbyn ein grantiau i greu cofnod digidol o'u prosiect. Mae'r llwyfan hanes cymunedol hwn yn amlwg yn dangos amrywiaeth treftadaeth a'r grwpiau sy'n cael eu hariannu gennym, a gobeithiwn y bydd yn annog ceisiadau am ein rhaglenni grantiau bach yn y dyfodol.

## f) Gwirfoddolwyr

"Yr angen i gefnogi gwirfoddolwyr, ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, yn ein treftadaeth."

Adlewyrchir gweithgarwch gwirfoddoli yn ein fframwaith deilliannau ac mae'n parhau'n rhan amlwg yn y prosiectau y byddwn yn eu hariannu ar draws ystod llawn ein rhaglenni grant, o brosiectau llai yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr o dan Rhannu Treftadaeth i fentrau gwirfoddoli ar raddfa fawr fel rhan o Grantiau Treftadaeth. Parhawn i gydnabod a gwerthfawrogi llafur gwirfoddolwyr yn ein proses ymgeisio, gan ganiatáu i ymgeiswyr bennu cost amser gwirfoddoli fel cyfraniad mewn nwyddau at brosiectau. Mae ein harweiniad a'n proses ymgeisio yn nodi cyngor clir ar gyfer recriwtio, rheoli a datblygu gwirfoddolwyr, a phwysigrwydd dathlu eu cyfraniad.

Gan ddefnyddio ein hymchwil effaith gymdeithasol, sy'n cyfeirio at fuddion gwirfoddoli treftadaeth i les personol, datblygu sgiliau a chydlyniant cymdeithasol, mae ein hastudiaethau achos yn parhau i amlygu cyflawniadau a buddion prosiectau lle mae gwirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol yn gwneud gwahaniaeth parhaol i'w cymunedau. Mae'r adroddiad Gwerthuso Effaith Parciau i Bobl a gyhoeddwyd eleni wedi ein galluogi i archwilio effaith gwirfoddoli'n fanylach yn ein prosiectau parciau yn benodol. Gyda diddordeb yn parhau mewn gwirfoddoli ar draws y sector treftadaeth, rydym wedi gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n hymchwil a hyrwyddo arfer da trwy gyfrannu at ystod o gynadleddau a gweithdai.

Wrth i ni chwilio am fodelau newydd ar gyfer rheoli treftadaeth yn gynaliadwy yng nghyd-destun toriadau parhaus yn y sector cyhoeddus, rydym wedi gweld mwy o geisiadau yn ymwneud â throsglwyddo asedau o'r sector cyhoeddus i'r sector gwirfoddol, ac rydym wedi ariannu sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr a sefydliadau sy'n dibynnu'n drwm ar gyfraniadau gan wirfoddolwyr i gyflawni prosiectau treftadaeth.

Mae'r rhaglen Grantiau Cychwyn a gyflwynwyd eleni wedi denu ceisiadau gan sefydliadau sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr sy'n dymuno ymgymryd â'r gwaith o reoli asedau treftadaeth lleol, ac mae ymchwil gynnar yn awgrymu bod y cyllid hwn yn gweithio'n effeithiol, yn galluogi sefydliadau i ddwyn prosiectau yn eu blaen drwy sefydlu fframwaith cyfansoddiadol priodol. Er mwyn deall yn well ac ymateb i oblygiadau ehangach y duedd hon, rydym wedi comisiynu ymchwil i archwilio profiad gwirfoddolwyr sy'n ysgwyddo rolau arwain o fewn sampl o brosiectau a ariennir sy'n cynnwys trosglwyddo asedau. Byddwn yn defnyddio'r gwaith ymchwil hwn i gynnig arweiniad effeithiol ar brosiectau gan fod gwirfoddolwyr yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn arwain a chyflawni ar draws y sector.

## g) Sgiliau

"Yr angen i annog arloesedd a rhagoriaeth, a helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau."

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant yn y gwaith wedi'i dargedu er mwyn ysgogi twf economaidd ac i sicrhau bod y gweithlu medrus sydd ei angen arno gan y sector i'w gynnal yn y tymor hwy. Mae'r rhai sydd wedi derbyn grant o dan ein menter Sgiliau ar gyfer y Dyfodol eleni yn amrywio o Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, sydd am ddatblygu sgiliau adeiladu a busnes pobl ifanc ddi-waith yn yr Alban, i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Ulster, sy'n hyfforddi pobl i ofalu am gynefinoedd a rhywogaethau arbenigol. Mae rhai grantïon yn datblygu cyrsiau hyfforddi arloesol i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg yn y sector treftadaeth, er enghraifft, Llyfrgell Bodley, a fydd yn hyfforddi pobl i archifo deunydd 'a anwyd yn ddigidol'.

Parhaodd grantïon a ariannwyd drwy ein rowndiau blaenorol o raglenni Sgiliau ar gyfer y Dyfodol a Bwrsariaeth Hyfforddi i gyflawni canlyniadau ansawdd uchel i gyfer hyfforddeion unigol a'r sector cyfan. Mae'r rhaglen Bwrsariaeth Hyfforddi wedi ariannu 950 o leoliadau hyfforddi'n seiliedig ar gadwraeth, ac mae dros 75% o'r hyfforddeion wedi cael swyddi yn y sector treftadaeth. Hyd yma, mae dros 1,000 o leoliadau hirdymor wedi'u creu drwy'r rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol mewn amrywiaeth eang o sgiliau treftadaeth, gan gynnwys cadwraeth cyfryngau ac archifau digidol, garddwriaeth a rheoli tirwedd.

Rydym wedi cwblhau gwerthusiad interim o'r rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol eleni. Mae hyfforddeion yn adrodd cyfraddau boddhad uchel iawn â'r rhaglen a'r hyfforddiant a gawsant. Dywed rheolwyr prosiectau wrthym fod 75% o hyfforddeion wedi mynd ymlaen i swyddi'n gysylltiedig â threftadaeth, neu hyfforddiant pellach, o ganlyniad i'n buddsoddiad, er gwaetha'r hinsawdd economaidd heriol. Adroddant am y buddion i sefydliadau a'r sector yn sgil y rhaglenni: nifer gynyddol o gymwysterau treftadaeth ar gael i'r sector; aseswyr mwy cymwys i helpu i brif-ffrydio a chynnal hyfforddiant treftadaeth yn y tymor hwy; gweithlu treftadaeth sy'n fwy cymwys i gyflwyno hyfforddiant yn y gwaith; ac, yn gyffredinol, gweithlu mwy amrywiol.

Ymhellach na'n mentrau sgiliau wedi'u targedu, anogwn ac ariannwn datblygu sgiliau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â phob un o'n prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i'r safon uchaf. Yn ein fframwaith strategol pwysolir y deilliant 'bydd pobl wedi datblygu sgiliau' yn y rhaglen Grantiau Treftadaeth. Rydym yn gwybod bod 86% o'n prosiectau Grantiau Treftadaeth yn cyflwyno hyfforddiant, bod nifer sylweddol yn darparu prentisiaethau neu gyfleoedd hyfforddi yn y gwaith, a bod y mwyafrif helaeth (88%) yn cyflwyno hyfforddiant uwch i wirfoddolwyr.

## h) Gwerth cyhoeddus

"Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo gwerth cyhoeddus ac nad elw preifat yw eu bwriad pennaf."

Mae ein hathroniaeth Loteri yn seiliedig ar ariannu'r hyn y mae pobl yn ei drysori, ac mae ein hasesiad o geisiadau bellach yn ystyried y deilliannau y bydd prosiectau'n eu creu ar gyfer treftadaeth, pobl a chymunedau. Rhown flaenoriaeth i sefydliadau dielw ac er 2002 mae dros hanner ein cyllid yn ôl gwerth (52%) wedi mynd i sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eglwysig.

Darparwn rywfaint o gymorth i dreftadaeth mewn perchenogaeth breifat drwy ein rhaglen Ein Treftadaeth (grantiau o £10,000 – £100,000) ar yr amod y gall ymgeiswyr ddangos bod brwdfrydedd clir gan y cyhoedd i'w prosiect, a gwir angen am fuddsoddiad y Loteri. O dan ein rhaglen newydd Menter Treftadaeth, mae'r achos dros arian y Loteri yn dibynnu ar fod yna 'ddiffyg cadwraeth' – lle mae gwerth presennol adeilad a'r gost o ddod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd yn fwy na'i werth ar ôl y prosiect. Mae'r ymagweddau hyn i fod i sicrhau y bydd y buddion cyhoeddus o'r prosiectau y buddsoddwn ynddynt yn gorbwyso unrhyw fudd preifat.

## i) Datblygu cynaliadwy

"Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy."

Mae'r holl ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau am gyllid o fwy na £2filiwn yn dod o dan ein polisi ôl-troed carbon erbyn hyn, sy'n mynnu eu bod yn cynnal asesiad ôl-troed carbon o'r cynnig prosiect yn ystod y cyfnod datblygu. Bydd yr asesiadau hyn yn dod yn rhan o'r broses arfarnu prosiectau yn gynyddol yn ystod 2014–15.

Dim ond un rhan o'r asesiad a wnawn o effeithiau amgylcheddol tebygol prosiectau yw pennu ôl-troed carbon. Er 2008 rydym wedi mynnu bod ymgeiswyr yn dweud wrthym sut y byddant yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â defnyddio adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy,

dŵr, deunyddiau adeiladu, gwastraff, pridd, caffael pren cynaliadwy, bioamrywiaeth a thrafnidiaeth ymwelwyr.

Yn 2013–14 aethom ati i werthuso ein harweiniad ar effaith amgylcheddol, bum mlynedd ar ôl ei gyflwyno. At ei gilydd, canfuom fod yr arweiniad yn darparu gwybodaeth berthnasol a defnyddiol i ymgeiswyr, a'i fod yn llywio'r ffordd y maent yn cynllunio ac yn dylunio eu prosiectau. Gan fod y rhan fwyaf o brosiectau sy'n dod o dan yr arweiniad hwn yn dal ar gyfnod cynnar o ran eu cyflawni, byddwn yn parhau i fonitro costau a buddion mesurau amgylcheddol – ni fydd y dystiolaeth lawn ar gyfer hynny ar gael hyd nes bod prosiectau wedi'u cwblhau am rai blynyddoedd.

### j) Amddifadedd economaidd a chymdeithasol

"Dymunoldeb lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir."

Mae ychydig dros ddwy ran o bump (42%) o holl gyllid CDL wedi'i ymrwymo yn y 25% o'r ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yn y DU (yn seiliedig ar y mynegeion mwyaf diweddar o amddifadedd lluosog ar gyfer Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae'r gyfran hon un pwynt canran yn is na'r llynedd.

Mae gennym dimau datblygu yn ein swyddfeydd lleol yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr i annog ceisiadau o ansawdd da o ardaloedd nad ydynt wedi'u cynrychioli gystal yn ein cyllido hyd yma. Mae ein timau datblygu bellach yn gweithio mewn ardaloedd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer cyfnod y fframwaith strategol presennol o 2013 i 2018.

Fel mesur o ledaenu cyllid yn deg, rydym yn adolygu'r nifer o awdurdodau lleol sydd wedi derbyn cryn dipyn yn llai na chyfartaledd y DU, o ran gwerth dyfarniadau grant y pen. Mae nifer yr awdurdodau lleol lle'r oedd dyfarniadau grant y pen yn is na chwarter cyfartaledd y DU bellach yn 62 (15% o'r cyfanswm).

### k) Gweithio ar y cyd

"Dymunoldeb gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa."

Drwy Fforwm y Loteri ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym yn parhau i weithio gyda dosbarthwyr eraill y Loteri ar fentrau ar y cyd ac i sicrhau cydlynu gweithgareddau'n fanwl.

Yn 2013–14 rydym wedi gweithio gyda'r Llywodraeth, yr Amgueddfeydd Rhyfel Imperialaidd a'r Lleng Brydeinig Frenhinol, a llawer o gyrff eraill ar weithgareddau i nodi Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr rydym yn cyd-ariannu prif raglen ddiwylliannol y DU, 14–18 NOW. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i ddarparu cefnogaeth arbenigol a help ymchwil i grwpiau cymunedol sy'n gwneud cais i'n rhaglen ar gyfer prosiectau Canmlwyddiant, Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw.

Parhawn i weithio mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr i gyflawni ein rhaglen Parciau i Bobl yn Lloegr, a gweithiwn ar y cyd ag English Heritage, Cadw a Historic Scotland ar ein rhaglen Grantiau ar gyfer Mannau Addoli.

### l) Cydnabyddiaeth

"Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod cyllid y Loteri, gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri."

Nid yw ein hymagwedd at hyn wedi newid eleni. Credwn ei bod yn bwysig cynyddu ymwybyddiaeth o fuddion cyllid y Loteri ac rydym yn pennu gofyniad bod pob ymgeisydd yn cydnabod ein grantiau'n briodol yn ystod cyfnod cyflwyno'r prosiect, ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae ein harweiniad *Sut i gydnabod eich grant* yn rhan o'n telerau grant safonol, a chynhaliwn ymweliadau ôl-cwblhau â sampl o brosiectau er mwyn sicrhau bod cydnabyddiaeth i gyllid y Loteri yn cael ei rhoi.

## m) Cyllid partneriaeth

"Yr angen i brosiectau gael elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniad o fath arall o ffynonellau eraill, i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer ein fframwaith strategol presennol. Tynnodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn 2011 sylw at anawsterau yr oeddent yn eu rhagweld o ran cynyddu cyllid partneriaeth mewn cyfnod o her economaidd, felly rydym wedi cynnal ein hisafswm gofyniad yn ein prif raglen agored, Grantiau Treftadaeth, sef 5% mewn arian parod neu gyfraniad o fath arall ar gyfer grantiau hyd at £1filiwn, a lleiafswm o 10% ar grantiau dros £1filiwn. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol.

## n) Penderfyniadau

"Yr angen (a) i arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau at ddiben cyfyngedig i amser penodol yn unig, (b) i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol a chyngor arbenigol ganddynt i wneud penderfyniadau am bob cais, a (c) i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol prosiectau."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer ein fframwaith strategol presennol.

a) Mae'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn rhai penodol ac yn gyfyngedig i amser. Cyfyngwn ein cymorth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau. Caiff tri chwarter o brosiectau eu cwblhau yn unol â'r amserlen.

b) Ceisiwn wybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae'r prosiectau a gyflwynant yn cyflwyno achos cadarn dros fuddsoddi, y graddau y byddant yn cyflawni deilliannau i dreftadaeth, pobl a chymunedau, y graddau y maent yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol, a'r graddau y byddant yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

c) Gofynnwn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos hyfywedd ariannol eu prosiect, wedi'i ddadansoddi yn gostau cyfalaf, gweithgarwch a chostau eraill, ac sy'n dangos pa gyfraniad y maent yn cynnig ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Gofynnwn am ragolwg llif arian, ac, ar gyfer prosiectau mwy, rhagolygon incwm a gwariant am 10 mlynedd, gan ddangos sut mae'r ymgeisydd yn cynllunio i gynnal y prosiect yn y tymor hir.

## o) Cynllunio a rheoli prosiectau

"Lle ceisir cyllid cyfalaf, yr angen (a) am gynllun busnes clir sy'n dangos sut bydd unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw'n cael eu talu dros gyfnod rhesymol, a (b) i sicrhau bod yr arfarnu a'r rheoli ar gyfer prif brosiectau yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth."

a) Ar gyfer y fframwaith strategol presennol, mae'r ffurflen gais ar gyfer ein rhaglen Grantiau Treftadaeth yn parhau i ofyn i ymgeiswyr osod eu ceisiadau ail rownd mewn fformat cynllun busnes, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chynnwys mewn cynllun gweithgarwch, rhagolygon llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer grantiau dros £2filiwn, rydym bellach yn gofyn am Gynllun Busnes Prosiect. Gofynnwn i brosiectau cadwraeth gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal treftadaeth yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod ganddi ddyfodol hyfyw, ac i ddiogelu ein buddsoddiad trwy reolaeth hirdymor well. Ar gyfer prosiectau sy'n golygu gwerth dros £200,000 o waith cyfalaf, gofynnwn am Gynllun Rheoli a Chynnal a Chadw sy'n nodi manylion sut bydd yr ymgeisydd yn talu costau ychwanegol hyn ar ôl cwblhau ei brosiect, a chyhoeddwn arweiniad ar sut i gynhyrchu hyn.

b) Gofynnwn i bob ymgeisydd ddangos y bydd eu prosiectau'n cael eu rheoli'n dda, ac y byddant yn bodloni safonau perthnasol yr ystyrir eu bod yn arfer da ar gyfer y maes y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Ar gyfer prosiectau cyfalaf

cynhwyswn bwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gyfnodau RIBA) ac mae'r holl brosiectau cenedlaethol yn mabwysiadu Safonau Adolygu Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Defnyddiwn fonitoriaid allanol ar bob prif brosiect er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i CDL yn ddealladwy ac yn cael eu rheoli, bod arfer gorau'n cael ei gyflawni yn yr holl feysydd critigol, a bod adrodd a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

### Cyfarwyddiadau polisi yng Nghymru

Mae cyfarwyddyd polisi (b) yn pennu gofyniad bod CDL yn ystyried "yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro'n unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt."

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad CDL i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, ac i sicrhau bod polisïau a mentrau yn bodloni'r safonau a nodir yn y cynllun. Mae hyn yn cwmpasu gweithredoedd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru, wyneb cyhoeddus y sefydliad, gan gynnwys hunaniaeth gorfforaethol, ffurflenni cais, nodiadau arweiniad a'r wefan, y wasg a gweithgarwch marchnata, asesu a monitro ceisiadau, staffio a recriwtio, ac ymarferiadau ymgynghori ac ymchwil. Rydym yn monitro ein perfformiad yn flynyddol drwy ein hymrwymiad i Gynllun Cydraddoldeb, ac rydym wedi cynhyrchu arweiniad i gynorthwyo ymgeiswyr yng Nghymru i ddatblygu ymagweddau dwyieithog, *Ymgorffori'r Gymraeg yn eich prosiect.*

### Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr CGDG o dan Adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Trwy hyn, mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr CGDG ('y Gronfa') yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran benodol yn Neddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'i diwygiwyd.

### Cyfarwyddiadau mewn perthynas â Chymru

2. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, bydd y Gronfa yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r unigolion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau iddynt, at ba ddibenion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau ar eu cyfer, a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau neu'r benthyciadau a ddyrennir, yn ogystal â'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud wrth ddosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

   a) Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o Gymru, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

   b) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

c) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled Cymru, lle bo hwn yn ddull effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa.

d) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.

e) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru.

f) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth Cymru.

g) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.

h) Lle bo'n briodol, yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny.

* Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg, Mawrth 2007.

## Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban

Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan adran 26(2) fel y'u darllenwyd gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Gweinidogion yr Alban, wrth arfer y pwerau o dan adran 26(2) fel y'u darllenwyd gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993**, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (yr 'Ymddiriedolwyr'), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddosbarthiad a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

2. Wrth bennu'r unigolion y maent yn rhoi unrhyw arian iddynt, at ba ddibenion y maent yn rhoi unrhyw arian ar eu cyfer, a'r amodau ar gyfer rhoi unrhyw arian iddynt o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn yr Alban, rhaid i'r Ymddiriedolwyr ystyried y blaenoriaethau canlynol a materion eraill:

   a) Yr angen i ystyried buddiannau'r Alban gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o'r Alban, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o'r Alban, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

   b) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

   Ymgysylltu
   Dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ar ymgysylltiad gweithredol partneriaid priodol.

   Gwyrddach
   Darparu gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

   Iachach
   Mae pobl a chymunedau yn iachach.

   Mwy diogel a chadarnach
   Mae cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Craffach
Mae pobl yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd.

Cydgefnogaeth a chydlyniant
Sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled yr Alban yn cael y cyfle i gyfranogi a chyfrannu ac elwa er mwyn sicrhau Alban fwy llwyddiannus.

Cynaliadwyedd
Gwella amgylchedd yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, tra'n lleihau effaith yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

Mwy cyfoethog a thecach
Economi ffyniannus a chynaliadwy.

c) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth yr Alban, a mynediad iddi.

d) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi pwysigrwydd diwylliannol yr ieithoedd Gaeleg a Sgoteg ar draws yr Alban gyfan.

e) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth yr Alban gan gynnwys y rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol i bobl yr Alban.

f) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth yr Alban.

g) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol mewn prosiectau.

h) Lle bo'n briodol, yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig ein cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol yr Alban, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny.

i) Yr angen i annog prosiectau treftadaeth sy'n cynnal etifeddiaeth ddiwylliannol a ddeillia o ddigwyddiadau rhyngwladol yn yr Alban.

j) Yr angen i roi gwybodaeth gyson i Weinidogion yr Alban am ddatblygiad polisïau, pennu blaenoriaethau a rhoi grantiau yn yr Alban.

** Trosglwyddwyd y swyddogaeth a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion yr Alban drwy Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Yr Alban 1998 (Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion yr Alban ac ati) 1999 (S.I. 1999/1750).

# Perfformiad Corfforaethol

## Targedau lefel gwasanaeth
perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

| Dangosyddion lefel gwasanaeth | **Blwyddyn hyd Mawrth2014 (cyfartaledd)** | Blwyddyn hyd Mawrth 2013 (cyfartaledd) | Blwyddyn hyd Mawrth 2012 (cyfartaledd) |
|---|---|---|---|
| 1 Rhoir penderfyniadau ar wefan CDL ymhen 10 diwrnod gwaith o'r cyfarfod | **100%** | 100% | 97% |
| 2 Gwneir taliadau grant i'r ymgeisydd, ar gyfartaledd, ymhen 10 diwrnod gwaith o gael y cais am daliad | **6 diwrnod** | 7 diwrnod | 7 diwrnod |
| 3 Bydd arolwg blynyddol o ymgeiswyr grant yn dangos cyfradd foddhad 80% â gwasanaeth CDL ar gyfer asesu, ac 85% ar gyfer monitro | **Asesu 80%** | Asesu 80% | Asesu 80% |
| | **Monitro 89%** | Monitro 86% | Monitro 87% |
| 4 Bydd ceisiadau CDL yn cael penderfyniad o fewn y graddfeydd amser canlynol: | | | |
| **Grantiau Treftadaeth** | | | |
| • rownd gyntaf – ymhen 12 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **14 wythnos** | 15 wythnos | 14 wythnos |
| • ail rownd – ymhen 12 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **15 wythnos** | 15 wythnos | 14 wythnos |
| • grantiau mawr – ymhen 12 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **13 wythnos** | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Menter Treftadaeth** | | | |
| • rownd gyntaf – ymhen 12 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **12 wythnos** | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Partneriaethau Tirwedd** | | | |
| • ail rownd – ymhen 16 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **14 wythnos** | 17 wythnos | 15 wythnos |
| **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli** | | | |
| • rownd gyntaf – ymhen 12 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **14 wythnos** | 20 wythnos | 20 wythnos |
| • ail rownd – ymhen 16 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **8 wythnos** | 8 wythnos | 7 wythnos |
| **Sgiliau ar gyfer y Dyfodol** | | | |
| • ail rownd – ymhen 8 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **10 wythnos** | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Menter Treftadaeth Treflun** | | | |
| • rownd gyntaf – ymhen 12 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **15 wythnos** | 14 wythnos | 14 wythnos |
| **Ymbarél Catalydd** | | | |
| • ail rownd – ymhen 8 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **10 wythnos** | Amherthnasol | Amherthnasol |

| Dangosyddion lefel gwasanaeth | **Blwyddyn hyd Mawrth2014 (cyfartaledd)** | Blwyddyn hyd Mawrth 2013 (cyfartaledd) | Blwyddyn hyd Mawrth 2012 (cyfartaledd) |
|---|---|---|---|
| **Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw** | | | |
| – ymhen 8 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **8 wythnos** | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Ein Treftadaeth** | | | |
| – ymhen 8 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **7 wythnos** | 8 wythnos | 8 wythnos |
| **Rhannu Treftadaeth** | | | |
| – ymhen 8 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **7 wythnos** | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Gwreiddiau Ifanc** | | | |
| – ymhen 8 wythnos ynghyd â'r amser at y cyfarfod nesaf | **7 wythnos** | 8 wythnos | 9 wythnos |

## Sylwadau ar ein dangosyddion lefel gwasanaeth

Mae dangosyddion perfformiad cwsmeriaid yn dangos blwyddyn arall o berfformiad da yn yr holl feysydd. Mae cynnal gwasanaeth cwsmeriaid da mewn blwyddyn pan dderbyniom nifer uwch o geisiadau nag erioed o'r blaen yn adlewyrchu'n dda iawn ar ein staff.

### Dangosydd 1

Parhaom i fodloni ein targed i roi penderfyniadau ar ein gwefan ymhen 10 diwrnod.

### Dangosydd 2

Gwnaethom dros 7,200 o daliadau grant eleni, 11% yn fwy na'r llynedd. Roedd yr amser cyfartalog a gymerwyd yn gyflymach na'r llynedd ac ymhell islaw'r targed o 15 diwrnod. Mae taliadau cyflym gan CDL yn gymorth mawr i'r rhai sy'n derbyn grantiau o ran rheoli eu proses talu biliau eu hunain ac mae'n sicrhau y gellir talu eu contractwyr yn gyflym.

### Dangosydd 3

Mae boddhad cwsmeriaid â'n gwaith asesu a monitro, yr ymchwiliwyd iddynt drwy arolygon ffôn a gynhaliwyd yn annibynnol, yn parhau'n uchel iawn. Fe wnaeth boddhad ymgeiswyr, yn rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus, fodloni'r targed er bod y ffaith fod nifer uwch y ceisiadau yn golygu'n anochel bod rhaid i ni wrthod mwy ohonynt. Roedd boddhad â'n gwasanaeth ar ôl i ni wneud dyfarniad yn dangos gwelliant sylweddol ar y llynedd.

### Dangosydd 4

Ar ddechrau'r flwyddyn, aethom i mewn i gyfnod ein fframwaith strategol presennol, a gyflwynodd brosesau a rhaglenni newydd. Daeth y prosesau newydd hynny â gostyngiadau yn eu sgil o ran yr amser a gymerwn i roi penderfyniad i ymgeisydd ar gyfer llawer o'n rhaglenni grant. Rydym wedi bodloni amserau prosesu cyhoeddedig ar gyfer ein holl raglenni grant, er gwaetha'r cynnydd yn nifer y ceisiadau, am ein bod yn cydnabod pwysigrwydd hyn i'n hymgeiswyr.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd ar brosiectau heb eu cwblhau sy'n cynnwys £5miliwn neu fwy o arian Loteri.

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£) | % y grant a dalwyd hyd yma | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberdeen Art Gallery | Yr Alban | 30,183,918 | 10,000,000 | 0 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf yn Ebrill 2013, yn cynnwys £126,000 ar gyfer y cam datblygu. Mae'r cam hwn ar waith erbyn hyn a disgwylir cyflwyno penderfyniad ar y dyfarniad ail rownd yn yr haf 2014. |
| Alexandra Palace, Haringey | Llundain | 23,918,767 | 16,799,900 | 0 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf yn Ebrill 2013, ac mae £844,800 o hwnnw ar gyfer datblygu. Dechreuwyd y cam datblygu gyda phenodi tîm dylunio. Disgwylir penderfyniad ar y dyfarniad ail rownd tuag at ddiwedd 2014–15. |
| Aspire, Tate Britain | Llundain | 24,273,455 | 15,800,000 | 97 | Dyfarnwyd grant yn Ebrill 2013 i brynu *Salisbury Cathedral from the Meadows* o waith John Constable (1776–1837) ar gyfer Tate Britain, gyda rhaglen gysylltiedig o weithgareddau ategol o 2013–18 i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer Astudiaethau Constable. Ar hyn o bryd mae'r paentiad yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. |
| Auckland Castle | Y Gogledd Ddwyrain | 17,356,763 | 10,000,000 | 0 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf yn Ebrill 2013 ar gyfer agor y castell i'r cyhoedd am y tro cyntaf, ac mae £1,000,000 o hwnnw ar gyfer datblygu. Dechreuwyd y cam datblygu gyda phenodi tîm proffesiynol a recriwtio gwirfoddolwyr. Disgwylir penderfyniad ar y dyfarniad ail rownd tuag at ddiwedd 2014–15. |
| Buxton Crescent & Spa | Dwyrain Canolbarth Lloegr | 33,180,338 | 13,030,000 | 19 | Gwaith galluogi yn canolbwyntio ar feysydd risg uchaf, fel paratoi'r islawr, wedi'i gwblhau. Mae oedi wedi arwain at gynnydd o ran costau. Mae cwmpas y prosiect i'w adolygu. |
| The Canterbury Beaney: Amgueddfa Gelf a Llyfrgell ar y Cyd | Y De Ddwyrain | 12,364,596 | 7,015,000 | 90 | Agorwyd yr amgueddfa ym Medi 2012. Rhoddwyd y ganolfan ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr y Gronfa Gelf yn 2013. Mae'r rhaglen gweithgarwch sy'n weddill ar fin ei chwblhau. |
| Chiswick House and Gardens Regeneration Project: Phase 1 | Llundain | 11,887,500 | 8,100,000 | 98 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau ac eithrio rhai mân gostau heb eu talu yn ymwneud â chyflogi staff garddio, marchnata, a chydlynu gwirfoddolwyr. |
| Creating the Museum of Bristol: The People's Story | Y De Orllewin | 27,390,843 | 11,668,400 | 10 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau. Mae M Shed, sy'n adrodd hanes diwydiannol dinas Bryste, wedi derbyn dros 1.3 miliwn o ymwelwyr yn ei dwy flynedd gyntaf o fod ar agor. |
| Ditherington Flax Mill Maltings, Yr Amwythig | Gorllewin Canolbarth Lloegr | 25,679,400 | 12,823,300 | 0 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2013 tuag at y cam adfywio cyntaf ar gyfer y safle hwn, adfer saith o adeiladau rhestredig, yn cynnwys adeilad cyntaf y byd â ffram haearn. Mae prisiau tendr ar gyfer y pecynnau gwaith wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| Dreamland, Margate | Y De Ddwyrain | 11,102,520 | 5,800,000 | 2 | Dyfarnwyd cynnydd grant o £2,800,000 y mis Mawrth 2014 i dalu costau uwch yn rhannol yn sgil oedi o ran cwblhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol. Bydd y prosiect yn adfer cyfran o'r safle ac yn ailagor y parc difyrion hanesyddol gyda rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau. |

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£) | % y grant a dalwyd hyd yma | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Restoring our Fenland Heritage – the purchase and restoration of the Holmewood Estate | Dwyreiniol | 13,350,785 | 9,101,700 | 90 | Dyfarnwyd cynnydd grant o £1,897,700 ym mis Mawrth 2013 i sicrhau 182 hectar arall o dir (rhagwelwyd yn y cynigion gwreiddiol). Mae'r rhain bellach yn rhan o brosiect ehangach Great Fen, un o'r prosiectau adfer cynefinoedd mwyaf yn Ewrop. |
| Hastings Pier | Y De Ddwyrain | 14,248,352 | 11,410,000 | 10 | Dyfarnwyd grant ym mis Tachwedd 2012. Cwblhhawyd Gorchymyn Prynu Gorfodol yn 2013. Dechreuodd gwaith ar y safle yn Ionawr 2014 gyda gosod planciau dec newydd ym mhen y pier tua'r tir. Fe wnaeth cyhoeddi cyfrannau cymunedol alluogi gwerthu 1,300 o gyfranddaliadau a chodi lefel darged y cyllid tuag at y prosiect. |
| HMS *Caroline,* Belfast | Gogledd Iwerddon | 15,259,880 | 12,207,800 | 0 | Dyfarnwyd pas rownd gyntaf yn Ebrill 2013, yn cynwys grant datblygu o £845,600. Mae'r cam datblygu'n mynd rhagddo gyda strwythurau rheoli prosiect yn cael eu sefydlu, ac mae'r broses o drosglwyddo perchenogaeth y llong i Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol wedi'i chwbhlau. Disgwylir penderfyniad ail rownd yn yr hydref 2014. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n unol â'r amserlen i'w gyflawni mewn pryd ar gyfer dathliadau coffau Rhyfel Byd Cyntaf Brwydr Jutland ym mis Mai 2016. |
| Hull History Centre | Swydd Efrog a'r Humber | 10,697,161 | 7,506,000 | 85 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2007 ac agorodd Hull History Centre i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2010. Mae'r rhaglen gweithgareddau a ariennir gan CDL wrthi'n cael ei chyflwyno. Disgwylir hawliad terfynol. |
| Inspired by Knole | Y De Ddwyrain | 24,181,947 | 7,750,000 | 0 | Dyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2013 i sicrhau dyfodol Knole House sy'n adeilad rhestredig Gradd 1. Caniatâd i ddechrau wedi'i gytuno. |
| Lincoln Castle Revealed | Dwyrain Canolbarth Lloegr | 19,982,405 | 12,277,460 | 0 | Prosiect i ad-drefnu arddangosfeydd yr amgueddfa yn y castell ac ailddehongli tir y castell yn mynd rhagddo'n dda. Anelu i'w agor fel rhan o ddathliadau'r Magna Carta yn 2015 |
| Lion Salt Works | Y Gogledd Orllewin | 6,962,250 | 5,290,000 | 53 | Dyfarnwyd grant o £4,958,000 ym mis Mawrth 2008 i'r prosiect i adfer gwaith halen padelli agored yn Swydd Gaer, gyda chynnydd grant o £332,000 wedi'i ddyfarnu ym mis Gorffennaf 2012. Dechreuodd gwaith ar y safle yn 2012 ond canfuwyd fod cyflwr y safle wedi dirwyio mwy na'r disgwyl. Mae gwaith yn parhau ac mae CDL wedi penodi mentor i helpu canolbwyntio ar godi arian. |
| Information Age, Making Modern Communications, Science Museum | Llundain | 14,300,000 | 6,000,000 | 39 | Gwaith adeiladu'r oriel wedi'i gwblhau a gwaith gosod dehongli yn dechrau. Paratoadau rhaglenni dysgu yn parhau. Gwaith cadwraeth. gwrthrychau bron wedi'i gwblhau. Lansiad wedi'i gynlluni ar gyfer yr hydref 2014. |
| Edouard Manet's *Portrait of Mademoiselle Claus* | Y De Ddwyrain | 7,929,300 | 5,999,300 | 98 | Dyfarnwyd grant yn Ebrill 2012. Caffaelwyd y paentiad yn Awst 2012. Gwaith allymestyn wedi'i gwblhau – y tri lleoliad olaf yr ymwelwyd â nhw eleni oedd Sefydliad Celfyddydau Cain Barber, Birmingham; Oriel Gelf Manceision, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£) | % y grant a dalwyd hyd yma | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mary Rose Museum Project | Y De Ddwyrain | 32,452,000 | 25,205,000 | 88 | Agorwyd yr amgueddfa ym Mehefin 2013, ac ers hynny mae wedi derbyn dros 400,000 o ymwelwyr. Mae'r adeilad newydd wedi ennill gwobr Prosiect y Flwyddyn y Building Magazine 2014. Mae gwaith cadwraeth arteffactau yn parhau. |
| Museum of Liverpool | Y Gogledd Orllewin | 19,373,633 | 11,400,000 | 89 | Agorwyd yr Amgueddfa yng Ngorffennaf 2011. Disgwyl tynnu'r arian olaf i lawr yn amodol ar ddatrys materion nad ydynt yn gysylltiedig â phrosiect CDL. |
| The Piece Hall – Halifax Heritage | Swydd Efrog a'r Humber | 10,770,888 | 7,000,000 | 2 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2012. Gwaith paratoi bron â'i gwblhau. Gwaith ar y safle wedi'i drefnu i gychwyn yn haf 2014. |
| Regeneration: First World War Centenary Project, Imperial War Museum | Llundain | 25,252,876 | 6,500,000 | 41 | Cynnydd grant o £2filiwn wedi'i ddyfarnu yn Nhachwedd 2013. Pob un o'r prif arddangosfeydd yn eu lle. Agoriad swyddogol wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2014. |
| Renaissance of the Cotswold Canals | Y De Orllewin | 27,641,225 | 12,716,300 | 89 | Adfer 8.7 cilometr o gamlas rhwng Ocean a Bowbridge ac atgyweirio llwybr tynnu cyn belled â Brimscombe Port yn parhau. |
| Revealing, celebrating and exploring the heritage of the Royal Academy of Arts | Llundain | 30,156,969 | 12,300,000 | 0 | Dyfarnwyd grant ym mis Medi 2013 ar gyfer atgyweirio 6 Burlington Gardens a chysylltu â Burlington House gyda gwell amwynderau i ymwelwyr. Gwaith paratoi hanfodol yn mynd rhagddo. |
| Royal Albert Memorial Museum and Art Gallery Development | Y De Orllewin | 19,126,003 | 9,652,000 | 100 | Wedi'i gwblhau. Gwnaed y taliad olaf ym mis Awst 2013. Agorwyd yr Amgueddfa yn Rhagfyr 2011. |
| Creu Hanes – Making History yn Sain Ffagan | Cymru | 24,477,415 | 11,550,000 | 0 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2012. 5% o'r costau ar ôl i'w godi a gwaith galluogi wedi'i gwblhau. Arddangosfeydd wedi'u symud i storfeydd allanol a'r holl ganiatadau angenrheidiol wedi'u cael. Y prif gontract ar fin dechrau. |
| Silverstone Heritage Live | Dwyrain Canolbarth Lloegr | 19,121,014 | 9,110,500 | 0 | Dyfarnwyd pas rowng gyntaf yn Ebrill 2013 gyda grant datblygu o £446,000. Mae perchenogaeth a llywodraethu'r tir wedi'u had-drefnu fel bod sefydliad elusennol yn cael ei sefydlu i gyflawni'r prosiect hwn a fydd yn dehongli trac rasio enwog a hanesyddol Silverstone. |
| Stonehenge Environmental Improvements Project | Y De Orllewin | 21,619,387 | 10,000,000 | 82 | Agorwyd y ganolfan i ymwelwyr yn Rhagfyr 2013. Gwaith tirlunio o amgylch yr hen ganolfan ymwelwyr a'r maes parcio yn parhau. |
| The Temperate House Project | Llundain | 32,330,148 | 14,690,600 | 5 | Dyfarnwyd grant ym mis Mawrth 2013. Yt holl waith paratoi wedi'i gwblhau. Tendrau ar gyfer y prif waith adeiladu yn cael eu hadolygu. |
| V&A Dundee | Yr Alban | 54,569,163 | 9,399,500 | 1 | Dyfarnwyd grant yn Ionawr 2014. Cyllid wedi'i sicrhau gan Scottish Enterprise a Creative Scotland. Gwaith prosiect cyfalaf allan i dendr a gwaith recriwtio staff y prosiect yn mynd rhagddo. |

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£) | % y grant a dalwyd hyd yma | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Winchester Cathedral, Kings and Scribes | Y De Ddwyrain | 13,973,581 | 10,477,300 | 1 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2013. Gwaith adeiladu'r Ganolfan Ddysgu yn dechrau'n fuan. Gwaith ar y gadeirlan i do tŷ'r offeriad a ffenestri'r llofft olau wedi'i gynllunio i ddechrau nes ymlaen yn 2014. Gwaith recriwtio gwirfoddolwyr yn llwyddiannus a gwaith paratoi wedi'i gwblhau. |
| Windermere Steamboat Museum | Y Gogledd Orllewin | 12,675,245 | 9,370,700 | 0 | Dyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2013. Derbyniwyd y cais am daliad cyntaf. Gwaith wedi dechrau ar y safle. |
| The 21st Century Gallery in the Park: Extending Access to the Whitworth's Collections | Y Gogledd Orllewin | 12,545,059 | 8,500,000 | 57 | Yr oriel wedi'i chau ym mis Medi 2013 ar gyfer adeiladu. I'w hailagor ym mis Hydref 2014. |
| The British Museum World Conservation and Exhibitions Centre | Llundain | 37,784,645 | 10,000,000 | 15 | Prosiect cyfalaf i'w gwblhau yn yr haf 2014. Y brif arddangosfa gyntaf wedi'i chynnal yn rhan newydd yr Amgueddfa Brydeinig – 'Vikings: life and legend' a noddwyd gan BP – wedi gwerthu 128,000 o docynnau. Hyfforddiant staff yr amgueddfa a gwirfoddolwyr o rannau eraill o'r wlad wedi'i dreialu'n llwyddiannus. |
| York Minster Revealed | Swdd Efrog a'r Humber | 18,295,155 | 9,797,000 | 62 | Gwaith cerrig a gwydro yn parhau. Y gwaith ar yr is-grofft a'r piazza wedi'i gwblhau erbyn hyn, yn cynnwys y gwaith dehongli cysylltiedig. Agorwyd yr is-grofft yn swyddogol ym mis Mai 2013. |

# Monitro Cyflogaeth

1. **O dan Erthyglau 5(1), 5(2) a 5(3) o Orchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) 2001, mae gan y Gronfa ddyletswydd i fonitro, drwy gyfeirio at y grwpiau hil y maent yn perthyn iddynt, ac adrodd yn flynyddol**

a) niferoedd y:
- staff mewn swydd; ac
- ymgeiswyr ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a dyrchafiad, o bob un o'r cyfryw grwpiau; a

b) niferoedd y staff o bob un o'r cyfryw grwpiau sydd:
- yn cael hyfforddiant;
- yn elwa neu'n dioddef niwed o ganlyniad i weithdrefnau asesu perfformiad y Gronfa;
- yn ymwneud â gweithdrefnau cwyno;
- yn destun gweithdrefnau disgyblu; neu'n
- darfod cyflogaeth â'r Gronfa

## 2. Canlyniadau gwaith monitro yn 2013–14

### 2.1 Staff parhaol mewn swydd ar 14 Ebrill 2014

| Tarddiad ethnig | Cyfanswm |
|---|---|
| Affricanaidd | 5 |
| Asiaidd Bangladeshaidd | 1 |
| Asiaidd Indiaidd | 3 |
| Asiaidd Pacistanaidd | 2 |
| Du Affricanaidd a Gwyn | 1 |
| Caribïaidd | 6 |
| Tsieineaidd Dwyreiniol | 1 |
| Asiaidd Arall | 1 |
| Ethnig Cymysg Arall | 1 |
| Arall | 3 |
| Gwyn | 252 |
| **Cyfanswm** | **276** |

### 2.2 Ceisiadau am gyflogaeth yn 2013–14

Monitro gwybodaeth ymgeiswyr swydd, gan gynnwys ymgeiswyr mewnol, a ymgeisiodd drwy ein gwefan swyddi am 39 o swyddi y recriwtiwyd yn llwyddiannus iddynt. (Mae rhywfaint o ddata yn eisiau oherwydd gwall yn y system dechnegol yn ymwneud â phump o rolau.)

| Tarddiad ethnig | Dychwelyd cais | Rhestr fer ar gyfer cyfweliad | Llwyddiannus mewn cyfweliad |
|---|---|---|---|
| Affricanaidd | 93 | 9 | 1 |
| Arabaidd | 2 | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 27 | 1 | 0 |
| Prydeinig/Seisnig/ Gwyddelod o Ogledd Iwerddon/ Albanaidd/ Cymreig | 1,650 | 219 | 35 |
| Caribïaidd | 43 | 4 | 0 |
| Tsieineaidd | 13 | 0 | 0 |
| Indiaidd | 78 | 6 | 0 |
| Gwyddelig | 47 | 6 | 0 |
| Heb ddatgan | 343 | 25 | 3 |
| Arall | 26 | 1 | 0 |
| Asiaidd Arall | 22 | 0 | 0 |
| Du Arall | 2 | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 28 | 1 | 0 |
| Gwyn Arall | 77 | 9 | 0 |
| Pacistanaidd | 36 | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 17 | 2 | 0 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 13 | 1 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 15 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,532** | **285** | **39** |

### 2.3 Niferoedd y diwrnodau hyfforddiant a fynychir gan staff

Dengys cronfa ddata'r Gronfa am hyfforddiant mewnol ein bod wedi bodloni ein nod polisi o sicrhau bod pob aelod o staff o bob grŵp hil wedi cael mynediad cyfartal i gyfleoedd hyfforddi a datblygu trwy gydol y flwyddyn.

### 2.4 Gweithdrefnau asesu perfformiad

Yn 2013, roedd 30 o gyflogeion gwyn y graddiwyd eu perfformiad yn rhagorol, ac roedd tri chyflogai o grwpiau hil eraill y graddiwyd eu perfformiad yn rhagorol. Ni wnaeth unrhyw gyflogeion ddioddef niwed o ganlyniad i weithdrefnau asesu perfformiad.

### 2.5 Ceisiadau am ddyrchafiad mewnol

Yn ystod 2013–14, cafodd chwe chyflogai gwyn ac un cyflogai o grŵp hil arall eu dyrchafu'n barhaol yn fewnol. Cafodd chwe chyflogai gwyn eu dyrchafu dros dro yn fewnol.

### 2.6 Nifer y cyflogeion a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno yn ystod 2013–14

Ni chodwyd unrhyw gwynion ffurfiol gan unrhyw gyflogeion yn ystod y flwyddyn adrodd.

### 2.7 Nifer y cyflogeion a oedd yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod 2013–14

Ni fu unrhyw gyflogeion yn destun achos disgyblu ffurfiol yn ystod y flwyddyn adrodd.

### 2.8 Nifer y cyflogeion yn gadael cyflogaeth barhaol y Gronfa yn 2013–14

| | |
|---|---|
| Cyflogeion gwyn | 36 |
| Pob grŵp hil arall | 4 |

## 3. Dyletswyddau penodol

Caiff y dyletswyddau penodol ar gyflogaeth y mae'r Gorchymyn yn eu rhoi ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y Gronfa, eu cynllunio i ddarparu fframwaith i fesur cynnydd mewn cyfle cyfartal yng nghyflogaeth y sector cyhoeddus. Fe'u hanelir hefyd at roi gwybodaeth fonitro i arwain mentrau a allai arwain at weithlu sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt a'u gwasanaethu.

Wrth hysbysebu recriwtio, mae'r Gronfa'n parhau i annog ceisiadau swydd gan grwpiau pobl dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gydnabod nad yw ei gweithlu eto'n cynrychioli amrywiaeth leol na chenedlaethol yn llawn.

Awarding funds from
The National Lottery®

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

ISBN 978-1-4741-0209-4

9 781474 102094